

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

Adroddiad Ariannol 2013/14



Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

+ 44 (0) 29 2039 7951

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

Blaenafon, Torfaen NP4 9XP

+ 44 (0) 1495 790 311

Amgueddfa Lechi Cymru

Gilfach Ddu, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY

+ 44 (0) 1286 870 630

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol, Abertawe SA1 3RD

+ 44 (0) 1792 638950

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB

+ 44 (0) 29 2057 3500

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Stryd Fawr, Caerllion NP18 1AE

+ 44 (0) 1633 423 134

Amgueddfa Wlân Cymru

Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin SA44 5UP

+ 44 (0) 1559 370 929

Y Ganolfan Gasgliadau

Nantgarw, Rhondda Cynon Taf CF15 7QT

+ 44 (0) 29 20573 651

Cyhoeddwyd yn 2014 gan

Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

© Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Cynhyrchu: Mari Gordon

Dylunio: Diana Edwards Design

Argraffu: Inka Graphics

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ddarn o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf neu trwy unrhyw fodd boed yn drydanol, yn fecanyddol neu fel arall, heb yn gyntaf geisio caniatâd ysgrifenedig Amgueddfa Cymru neu ddeiliad/deiliaid yr hawlfraint, neu fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Dylid anfon unrhyw ymholiadau eraill at yr Adran Gyhoeddiadau, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, CAERDYDD CF10 3NP.

Mae'r Adroddiad Ariannol hwn ar gael ar ein gwefan:

www.amgueddfacymru.ac.uk

Argraffwyd yr Adroddiad hwn ar bapur sydd â Thystysgrif Amgylchedd ISO 14001 ac a ardystiwyd gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd. Mae'n bapur wedi'i orchuddio nad yw'n cynnwys pren. Mae'n bydradwy a gellir ei ailgylchu.

**national
museum
wales
amgueddfa
cymru**



ADRODDIAD ARIANNOL BWRDD YMDDIRIEDOLWYR AMGUEDDFA CYMRU

Cefndir Statudol ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid

Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru trwy Siarter Frenhinol ym 1907, ac mae'n parhau i fod wedi'i chofrestru fel endid cyfreithiol ac elusen o dan yr enw hwn (Rhif Siarter Brenhinol RC000369, Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10). Enw cyhoeddus cyfredol y sefydliad yw Amgueddfa Cymru.

Mae'n elusen gofrestredig annibynnol, ac yn cael ei hariannu'n bennaf trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC).

Ei hamcan craidd, a nodir yn y Siarter Frenhinol, yw 'hyrwyddo addysg y cyhoedd'. Mae hyn yn golygu datblygu ei chasgliadau, gofalu amdanynt, eu hastudio a chynnal mynediad atynt er lles cymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (1907, a ddiwygiwyd ym 1991 a 2006) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

- (i) yn bennaf, trwy sicrhau cynrychiolaeth gynhwysfawr i wyddoniaeth, celfyddyd, diwydiant, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, ac
- (ii) yn gyffredinol, trwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hybu gwell dealltwriaeth a hyrwyddo ymchwil.

Ymgysylltiad rhanddeiliaid yw congllfaen Gweledigaeth Amgueddfa Cymru o hyd. I'r perwyl hwn, parhaodd Amgueddfa Cymru i weithredu'r Cynllun a'r Polisi Ymgynghori sy'n egluro'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r technegau cyfranogi allweddol mewn perthynas â'n prif weithgareddau ymgynghorol yn 2013/14. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y pwyslais allweddol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio ein project sylweddol i ailddatblygu Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Yma, er enghraifft, mae rhaglen *Our Museum* a noddir gan Sefydliad Paul Hamlyn wedi cydweithio â sefydliadau partner i greu a chynnal cymuned o wirfoddolwyr ar gyfer Sain Ffagan, yn seiliedig ar anghenion y gwirfoddolwyr. Y nod yw rhoi newid diwylliant ar waith ym maes datblygu sgiliau ac arferion gwaith er mwyn ehangu'r gronfa wirfoddolwyr a sicrhau fod cyfleoedd i wirfoddolwyr yn rhan annatod o bob agwedd ar ein gwaith.

Nodau ac Amcanion

Ein blaenoriaethau cyfredol, fel y nodir yn ein Gweledigaeth, yw:

- creu amgueddfeydd byw lle mae'r casgliadau'n adrodd eu straeon mewn ffordd gliriach, a'r ymwelwyr yn profi bywyd ddoe a heddiw ac yn archwilio gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol
- datblygu casgliadau llewyrchus sy'n cael eu defnyddio'n dda, sy'n gynaliadwy ac sy'n tyfu
- canfod llwybrau i wneud synnwyr o'r byd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu, er mwyn creu mynediad cyfartal i'r casgliadau
- dysgu trwy rannu ein cynlluniau a'n dulliau o weithio ag ymwelwyr, er mwyn creu ffyrdd ystyrlon i'r amrywiaeth o bobloedd sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru ddefnyddio'r casgliadau
- cyfathrebu fel y daw Amgueddfa Cymru'n adnabyddus ledled y byd fel canolfan ddysg o safon ryngwladol
- tyfu trwy ddysgu wrth blannu a dathlu sgiliau dysgu wrth wraidd ein holl waith
- adeiladu ar ein hadnoddau er mwyn creu sail gadarn a chryf i gyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf a thu hwnt.

Safleoedd Amgueddfa Cymru

Yn ystod 2013/14 roedd Amgueddfa Cymru yn gweithredu saith o amgueddfeydd yn uniongyrchol ar hyd a lled Cymru:

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd

Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn unigryw ymysg amgueddfeydd cenedlaethol y DU o ran ehangder ei harddangosfeydd celfyddydol a hanes natur.

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd

Mae Sain Ffagan, un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf blaenllaw Ewrop, yn rhan o'n grŵp o bum amgueddfa hanes cymdeithasol a diwydiannol. Gall ymwelwyr archwilio a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn deugain a mwy o adeiladau o Fôn i Fynwy sydd wedi'u hailgodi yma.

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen

Mae hen bwll glo cyflawn Big Pit yn rhan ganolog o Safle Treftadaeth y Byd, Blaenafon. Dan arweiniad cyn-lowyr, caiff ymwelwyr eu tywys dros 90 metr i grombil y ddaear, er mwyn cael blas ar y tywyllwch dudew yr oedd y glowyr yn gweithio ynddo ddydd ar ôl dydd.

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion, Casnewydd

Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru wedi arddangos casgliad cyfoethog o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers 150 o flynyddoedd a mwy – gan gynnwys cerfluniau, aysgrifau, cerrig bedd, deunyddiau adeiladu, mosaig labrith, offer milwrol, crochenwaith, gwydr a gemwaith.

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd

Adroddir hanes y diwydiant llechi yng ngweithdai gwreiddiol chwarel Dinorwig. Yn ogystal â'r ffowndri, gefeiliau, siediau a'r olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain sy'n dal i weithio, gall ymwelwyr weld crefftwy'r yn arddangos eu sgiliau holli a thrin llechi â llaw.

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin

Yng nghalon cefn gwlad y gorllewin, mae'r amgueddfa hon yn adrodd hanes y clwstwr o ddeugain melin oedd yng nghyffiniau Dre-fach Felindre ar un adeg. Hen felin y Cambrian Mills – yr unig felin sydd wedi parhau ar waith yn gyson ers y cychwyn – yw cartref yr Amgueddfa bellach.

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ardal Forwrol Abertawe

Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn rhan ganolog o adfywiad Ardal Forwrol Abertawe. Hen warws rhestredig ar y glannau wedi'i gysylltu ag adeilad newydd, cyfoes o lechi a gwydr, yw cartre'r Amgueddfa. Fe'i hagarwyd ym mis Hydref 2005, penllanw strategaeth ddeng mlynedd o fuddsoddiad gwerth £40m yn ein pum amgueddfa gymdeithasol a diwydiannol ledled Cymru.

Hefyd mae gan Amgueddfa Cymru Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, sy'n agored i'r cyhoedd trwy drefniant. Ar ben hynny, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol ym mhob cwr o'r wlad, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Llwyddiannau'r Flwyddyn

Llwyddodd ein saith amgueddfa genedlaethol i ddenu 1.63 miliwn o ymweliadau yn 2013/14. Cydnabyddir fod y nifer hwn yn is na'r flwyddyn flaenorol pan dorwyd ein record am nifer fwyaf o ymwelwyr gan nad yw'r flwyddyn ariannol yn cynnwys y Pasg, pan mae'r niferoedd yn dueddol o gynyddu, a hefyd dechrau gwaith ailddatblygu Sain Ffagan sydd wedi achosi lleihad yn nifer yr ymwelwyr, yn ôl y disgwyl. Roedd yn arbennig o galonogol fod Amgueddfa Wlân Cymru wedi llwyddo i ddenu ei nifer fwyaf o ymwelwyr erioed er gwaetha'r ffactorau hyn.

2008/9	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14
1,524,806	1,641,053	1,656,340	1,690,026	1,745,315	1,629,196

Cyflwynodd Amgueddfa Cymru y polisi mynediad am ddim yn 2001/02 – cam arloesol sydd wedi bron â dyblu ffigurau ymwelwyr amgueddfeydd cenedlaethol Cymru. Mae'r ymrwymiad hwn i hyrwyddo mynediad i bawb i hanes a diwylliant Cymru cyn gryfed ag erioed heddiw, ac mae'r polisi'n rhan o gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011/16, y Rhaglen Lywodraethu.

Mae taro'r cydbwysedd cywir rhwng diwallu anghenion a disgwyliadau ymwelwyr ffyddlon sydd gennym eisoes a denu cynulleidfaoedd newydd yn hollbwysig o ran cynyddu'r niferoedd a hefyd, o fewn y cyfanswm hwnnw, cynyddu nifer yr ymwelwyr o'r categorïau economaidd gymdeithasol C2, D ac E.

Un llwyddiant arbennig yw datblygiad parhaus yr Amgueddfa Gelf Genedlaethol newydd ar lawr uchaf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae wedi bod yn boblogaidd iawn gyda chynulleidfaoedd newydd. Daeth 448,288 o ymwelwyr i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn 2013/14.

Cafwyd dros 3,000 o eitemau yn y wasg am y saith amgueddfa genedlaethol yn 2013/14, sydd â Gwerth Hysbysebu Cyfatebol o tua £16m. Sefydlwyd system fonitro newydd sy'n casglu rhagor o sylw na'r flwyddyn flaenorol.

Dyma flas ar uchafbwyntiau eraill y flwyddyn:

- Cychwyn gweithredu project ailddatblygu mawr Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, project gwerth £25.5 miliwn a gefnogir gyda £12 miliwn o nawdd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri – y grant mwyaf a ddyfarnwyd gan y Gronfa yng Nghymru erioed – a £6.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Yn ein barn ni, dyma'r project amgueddfa mwyaf cyffrous sydd ar y gweill yn y DU ar hyn o bryd. Bydd Sain Ffagan ar ei newydd wedd yn amgylchedd unigryw ar gyfer addysg ac yn cyflwyno hanes pobl Cymru mewn ffordd gwbl newydd. Am y tro cyntaf erioed yn unrhyw le, bydd casgliadau archaeoleg a hanes gwerin cenedlaethol yn cael eu harddangos gyda'i gilydd mewn amgueddfa awyr agored, gan roi cyfle i ymwelwyr archwilio dros 200,000 o flynyddoedd o hanes Cymru mewn ffyrdd newydd arloesol.
- Lansio Gweddnewid Dyfodol Plant, strategaeth Amgueddfa Cymru i gefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tldi yn ystod 2012-2015. Mae Amgueddfa Cymru wedi bod yn gweddnewid dyfodol plant erioed drwy eu galluogi i brofi bywyd yn y gorffennol a'r presennol. Rydym wedi ymrwmo ers blynyddoedd lawer i greu llwybrau er mwyn galluogi plant Cymru i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol a chyfoethogi drwyddynt.

Canlyniadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn

£5,031,000 oedd adnoddau i mewn cyfunol net Amgueddfa Cymru yn y flwyddyn ariannol hon (£295,000 o adnoddau alldaliadau cyfunol net yn 2012/13). Daeth cyfanswm o £35,356,000 o adnoddau i mewn i'r Amgueddfa (£29,441,000 yn 2012/13), gwariwyd cyfanswm o £30,246,000 (£29,657,000 yn 2012/13), a chyfran gwariant net y fenter ar y cyd oedd £79,000 (£79,000 yn 2012/13). Y gostyngiad net mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn ar ôl ystyried yr holl enillion a cholledion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu oedd £3,691,000 (gostyngiad net o £10,114,000 yn 2012/13). £90,965,000 oedd balansau'r gronfa ar 31 Mawrth 2014 (£87,274,000 ar 31 Mawrth 2013).

Prif weithgareddau Mentrau AOCC Cyf ar gyfer y flwyddyn oedd gwerthiant yn siopau Amgueddfa Cymru, arlwyio mewnol a chontract, parcio ceir, trwyddedu lluniau, llogi corfforaethol, prydesu a hawliau ffilmio. Gwnaeth y cwmni elw cyn cymorth rhodd i Amgueddfa Cymru o £545,000 ym flwyddyn ariannol 2013/14 (£415,000 yn 2012/13). Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu blwyddyn lwyddiannus yn enwedig o ran gweithgarwch masnachu, arlwyio, parcio ceir a llogi corfforaethol y cwmni, yn dilyn amgylchiadau masnachu anodd y flwyddyn flaenorol. Rheolwyd y costau'n dda.

Dangosyddion Perfformiad

Fel sefydliad dysg, mae Amgueddfa Cymru yn parhau i ymrwmo i fonitro a gwerthuso ein gwaith mewn ffyrdd meintiol ac ansoddol. Tra bod ein dangosyddion perfformiad meintiol yn dangos darlun o berfformiad, mae data ansoddol o astudiaethau achos yn parhau i ddarparu golwg fanylach a chyfle i bwysu a mesur ein gwaith a'i gyfoethogi.

Yn ystod 2013/14, fe wnaethom barhau i ddefnyddio fframwaith gwerthuso sy'n manteisio ar y ddau ddull hyn. Bydd y pecyn hwn a'r targedau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a thu hwnt, mewn cyfnod o gyni ariannol sylweddol yn y sector cyhoeddus, yn parhau i ganolbwyntio ar atgyfnerthu ein perfformiad rhagorol hyd yma, gan geisio sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru trwy gyflawni ein Gweledigaeth tymor hir.

Dangosir canlyniadau ein dangosyddion perfformiad allweddol yn ystod 2013/14 yn y tabl isod:

Amcan Allweddol Map y Weledigaeth (Safbwynt)	Dangosydd Meintiol	Canlyniad y flwyddyn flaenorol	Targed Blynyddol	Canlyniad 2013/2014
Amgueddfeydd o safon ryngwladol (Pobl Cymru)	Nifer o ymweliadau	1,745,315	1,600,000	1,629,196
Creu bri rhyngwladol (Pobl Cymru)	Nifer o sefydliadau y benthycwyd eitemau iddynt ar draws y byd	312	310	305
	Nifer o gydweithrediadau rhyngwladol	93	100	102
Cynulleidfaoedd â blaenoriaeth (Cynrychioli Cymru)	Nifer o ddigwyddiadau a dargedwyd at gynulleidfaoedd â blaenoriaeth	770	700	892
Casgliadau ac ymchwil (Cynrychioli Cymru)	Nifer o brojectau ymchwil	230	228	237
	% o'r casgliadau sydd ar ffurf cofnodion cyfrifiadurol o safon stocrestr	49.8%	50.5%	50.7%
Cyfleu ein casgliadau (Cynrychioli Cymru)	Nifer o ymweliadau addysg ffurfiol	218,077	220,000	210,543
	Nifer o ymweliadau addysg anffurfiol	273,734	215,000	260,021
Cyfryngau digidol (Gwella Perfformiad)	Nifer o ymweliadau â'r wefan	1,895,877	1,700,000	1,962,026
Hyrwyddo cynaliadwyedd (Llwyddiant Ariannol)	Nifer o bobl a fynychodd ddigwyddiadau eiriolaeth wedi'u targedu	880	1,000	1,158

Fel y nodwyd eisoes, 1,629,196 oedd cyfanswm yr ymweliadau â'n hamgueddfeydd yn 2013/14 (1,745,315 yn 2012/13), o gymharu â tharged o 1,600,000. Cafwyd 1,962,026 o ymweliadau â'r wefan yn ystod yr un cyfnod (1,895,877 yn 2012/13), sy'n dangos y graddau cynyddol y mae ymwelwyr yn parhau i ddewis cyrchu gwybodaeth am ein gwaith ar-lein.

Mae ein gwaith ar wasanaethu'r sector addysg ffurfiol yn dal i ddenu niferoedd sylweddol o ymwelwyr, gyda 210,543 o ymweliadau addysg ffurfiol (218,077 yn 2012/13), er bod hyn yn is na'r targed o 220,000 ac yn adlewyrchu gostyngiad yn nifer yr ymweliadau addysg â Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru tra fo gwaith ailddatblygu ar y gweill ar y safle a thuedd o lai o ymweliadau ffurfiol ymysg darparwyr dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru.

Cafwyd 260,021 o ymweliadau addysg anffurfiol (273,734 yn 2012/13), a oedd ymhell dros y targed o 215,000. Mae addysg anffurfiol bellach yn cynnwys nifer yr ymweliadau addysg 'gwerth ychwanegol' â'n safleoedd a nifer y cyfranogwyr ar gyfer gweithgareddau addysg oddi ar y safle.

Er bod ein holl gasgliadau wedi'u cofnodi'n unol â chanllawiau'r Ymddiriedolaeth Gasgliadau, rydym wedi parhau â'r rhaglen o roi'r holl gofnodion ar gyfrifiadur. Yn ystod 2013/14, ac ar sail casgliad o 5.1 miliwn o eitemau, llwyddwyd i greu cofnodion cyfrifiadurol o 50.7% o'r casgliadau i safon stocrestr (49.8% yn 2012/13).

Benthycwyd eitemau i gyfanswm o 305 o leoliadau (312 yn 2012/13), sydd ychydig yn is na'r targed o 310.

Blaenoriaethu Adnoddau

Ers pennu blaenoriaethau'r Weledigaeth, mae Amgueddfa Cymru wedi adolygu dyraniadau'r gyllideb yn barhaus er mwyn mynd ati i gyflawni'r blaenoriaethau hynny ac mae trosiant naturiol staff a blaenoriaethu recriwtio i swyddi gwag ynghyd â'r defnydd o arbedion yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn, wedi hwyluso'r gallu i newid. Mae hyn yn mynd law yn llaw ag ymgais i gael mwy o hyblygrwydd o fewn cyllidebau, trwy leihau costau staff a chostau sefydlog eraill.

Mewn ymateb i'r angen i newid pwyslais gwaith Amgueddfa Cymru i ymateb i'r newid yn nisgwyladau ei hymwelwyr a gostyngiadau yng ngrant Llywodraeth Cymru dros dair blynedd gan gychwyn yn 2011/12, dechreuodd Amgueddfa Cymru roi strwythur newydd y sefydliad ar waith ym mis Mai 2013. Disgwylir y daw'r broses i ben yn 2014/15.

Buddsoddiad Cyfalaf

Fel sail i gyflawni'r Weledigaeth, mae rhaglen o waith cyfalaf yn parhau, gyda'r uwchgynllun cyfalaf yn canolbwyntio ar Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

Dyma gynnydd rhai o broiectau'r Cynllun Cyfalaf yn ystod y flwyddyn:

- Mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad cyfalaf yn ystod 2013/14 wedi canolbwyntio ar Sain Ffagan. Bydd yn cael ei ddatblygu yn safle sy'n adrodd hanes ein pobl a'n gwlad o'r cyfnod cynnar hyd heddiw. Bydd y datblygiad yn gwella'r hyn a gynigir yn Sain Ffagan trwy gyflwyno'r adeiladau a'r casgliadau hanes cymdeithasol cyfredol yng nghyd-destun ehangach hanes cenedlaethol Cymru.
- Bydd llawer o'r casgliadau archaeoleg yn cael eu symud o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a'u hail-arddangos yn Sain Ffagan er mwyn adrodd stori fwy cyflawn. Y nod yw bodloni disgwyladau ymwelwyr sydd am ddysgu mwy am wreiddiau Cymru a pham ei bod yn wlad mor amrywiol heddiw. Er mwyn hwyluso'r gwaith hwn, mae oriel Gwreiddiau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd bellach ar gau er mwyn cynnal gwaith cadwraeth ar y gwrthrychau cyn eu symud i Sain Ffagan.
- Cynnal profion pum mlynedd ar gylchedau trydanol a gwaith rhagofalon tân.

Gweithio mewn Partneriaeth

Yn 2013/14, parhaodd Amgueddfa Cymru i weithio gyda phartneriaid ar hyd a lled Cymru a thu hwnt gyda'r nod o ddangos y casgliadau cenedlaethol mewn nifer o leoliadau gan gynnwys amgueddfeydd, oriellau, canolfannau ymwelwyr a safleoedd treftadaeth.

Mae ein perthynas ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn parhau i ddatblygu. Yn 2013/14, trefnwyd tair arddangosfa yn Oriell y Parc, dwy ohonynt yn unswydd ar gyfer yr oriel. Y gyntaf oedd *Portreadu Cestyll / Celc Tregwynt* a gynhaliwyd tan 5 Mai 2014. Roedd yn cynnwys delweddau o gestyll o'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, oes aur tirluniau ym Mhrydain. Dewiswyd cynnwys yr arddangosfa gan ein cyn-lyfrgellydd, Dr John Kenyon, arbenigwr blaenllaw ar gestyll. Ymhlith y projectau eraill oedd *Llareggub: Darluniau Peter Blake ar gyfer Under Milk Wood gan Dylan Thomas*, a agorodd ar 16 Mai 2014. Cytunodd Syr Peter Blake i'r arddangosfa yn Oriell y Parc yn dilyn llwyddiant ysgubol yr arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Cododd llawer o gyfleodd i gydweithio yn ei sgil, gan gynnwys projectau ar y cyd â Chyngor Sir Caerfyrddin a Theatr Gwaun yn Abergwaun. Mae'r arddangosfa'n rhan o DT100, blwyddyn o ddathlu genedigaeth Dylan Thomas.

Mae ein partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd yn parhau i ffynnu. Denodd yr arddangosfa Cyfoeth Gymru Gyfan, *Gwyliau i'r Brenin*, dros 6,000 o ymwelwyr. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ymweliad Mantell Aur yr Wyddgrug â Chaerdydd a Wrecsam. Y Fantell oedd canolbwynt yr arddangosfa *Mentyll, Gleiniau a Beddau* a ddatblygwyd gan staff Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Wrecsam gyda chymorth yr Amgueddfa Brydeinig. Uchafbwynt arall oedd yr arddangosfa *Trysor yn Wir: Casgliad Mwynau Anhygoel Boneddiges Gymreig*, yn seiliedig ar gasgliad mwynau'r Fonesig Henrietta Antonia Herbert, Iarlles Powys. Cynhaliwyd yr arddangosfa wreiddiol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac Amgueddfa Powysland. Cynorthwyodd Amgueddfa Cymru i addasu cynnwys a maint yr arddangosfa ar gyfer Wrecsam.

Mae ein partneriaeth â Stori Caerdydd yn parhau i fynd o nerth i nerth. Gweithiodd staff Amgueddfa Cymru gyda'u cydweithwyr yn Stori Caerdydd i arddangos blaenddelw llong Capten Scott, *Terra Nova*, i gofio ei thaith yn ôl i Gaerdydd wedi marwolaeth y Capten. Cafodd y blaenddelw ei harddangos ar bwys paentiad o'r llong yn gadael Caerdydd ym 1910.

Parhawyd i weithio gydag amgueddfeydd y Fenni, Cas-gwent a Llangollen ar eu projectau Cyfoeth Gymru Gyfan. Canolbwynt project Amgueddfa Llangollen yw tomen gladdu gynhanesyddol a chofeb o'r nawfed ganrif uwch ei phen, sef Colofn Eliseg, yn ogystal ag Abaty Glyn y Groes gerllaw. Agorwyd arddangosfa'n seiliedig ar gloddiadau archaeolegol diweddar ym mis Mehefin 2014. Mae amgueddfeydd y Fenni a Chas-gwent yn cynnal project tair blynedd ar y cyd i archwilio effaith ddiwylliannol abatai Tyndyrn a Llanddewi Nant Hodni a phenllanw'r gwaith oedd arddangosfeydd cyfocrog ym mis Mai 2014.

Mae CyMAL, ein noddwyr yn Llywodraeth Cymru, wedi gofyn am geisiadau ar gyfer cam nesaf cynllun Cyfoeth Gymru Gyfan ac maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

Ym mis Mai 2013, cytunodd y Gronfa Gelf i asesu'r posibilrwydd o ailgychwyn cynllun Celf Cymru Gyfan. Noddwyd y cynllun gan Sefydliad Esmée Fairbairn rhwng 2005 a 2011. Maes o law, bydd holiadur yn cael ei hanfon drwy Gymru benbaladr i fesur y diddordeb. Penllanw hyn fydd project peilot bach mewn un lleoliad. Os yn llwyddiannus, gobeithiwn fynd ar ôl cyfleoedd pellach gyda'r Gronfa Gelf yn y dyfodol.

Rydym wedi cefnogi cais Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am grant gyflawni ail gylch i ddatblygu yr Ysgwrn, hen gartref y bardd Hedd Wyn, trwy fynychu sawl cyfarfod o grŵp technol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Project tair blynedd dan arweiniad Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru yw Cysylltu Casgliadau Naturiol yng Nghymru dan nawdd Cronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn. Mae Amgueddfa Cymru a CyMAL yn bartneriaid project mawr ac mae Rheolwr y Project yn gweithio o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Y nod yw rhoi cysyniad Casgliad Cenedlaethol ar Wasgar ar waith a chynyddu proffil a defnydd casgliadau hanes natur yn amgueddfeydd Cymru.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r American Federation of Arts ar arddangosfa deithiol o dirluniau Prydeinig. Mae tri chanolfan wedi cytuno i dderbyn yr arddangosfa a chyhoeddir pedwerydd canolfan maes o law. Disgwylir i'r arddangosfa agor yn y lleoliad cyntaf ym mis Ionawr 2015. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda Swyddfa Ddiwylliant Chongqing i ddatblygu'r cynnig i gynnal arddangosfa o baentiadau traddodiadol o flodau ac adar o Amgueddfa Three Gorges. Disgwylir i'r arddangosfa agor yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ddechrau 2016.

Mae gwaith partneriaeth yn rhan annatod o'n gwaith, ac rydym yn parhau i ddatblygu partneriaethau fydd yn caniatáu i'r casgliadau cenedlaethol gael eu cyflwyno mewn amryw gyd-destunau ac yn creu cyfleoedd i ni rannu sgiliau ac arbenigedd ar draws y sector.

Caffael Sbesimenau

Ei casgliadau sydd wrth wraidd ein gwasanaeth i'r cyhoedd, ac mae'n hanfodol eu bod yn parhau i ddatblygu er mwyn diogelu ein treftadaeth ac adlewyrchu anghenion newidiol Cymru. Mae ein Grant Caffael Sbesimenau wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond rydym yn parhau i'w ddefnyddio i ddenu nawdd ychwanegol ac rydym wedi derbyn cyfraniadau hael iawn gan ein cefnogwyr hirdymor, yn enwedig Ymddiriedolaeth Derek Williams, y Gronfa Gelf, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a noddwyr preifat.

Prif bryniad celf y flwyddyn oedd grŵp o naw ar hugain llun o destunau Cymreig gan John Piper (1903-1992), a gaffaelwyd trwy werthiant cytundeb preifat am £974,000 gyda chymorth o £430,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, £350,000 gan Ymddiriedolaeth Derek Williams, £80,000 gan y Gronfa Gelf a rhodd gan y gwerthwr. Mae'r lluniau, a ddangoswyd eisoes mewn arddangosfa boblogaidd, yn gyfraniad pwysig at ein cynrychiolaeth o gelf a wnaed yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Derbyniwyd rhoddion ar ffurf nifer o weithiau gwerth uchel eraill. Y mwyaf nodedig yn eu plith oedd gwaith efydd gan Edgar Degas, celf berfformiad Tania Bruguera, *Distierro (Dadleoli)* a phaentiad gan Peter Doig. Ymhlith y pryniadau celf llai oedd gwaith ffotograffig mawr gan Richard Billingham, fideo gan Tim Davies a gomisiynwyd ar gyfer cyflwyniad Cymru yn Fenis ym Miennale Fenis a jwg priddwaith gan y Cambrian Pottery, Abertawe, sy'n cynnwys golygfa o'r neuadd yng nghastell Caerffili a baentiwyd gan Thomas Pardoe.

Y prif gaffaeliad archaeolegol oedd Celc Llanandras, sef grŵp o geiniogau aur ac arian a gollwyd neu a guddiwyd ddechrau'r bymthegfed ganrif, tua diwedd gwrthryfel Owain Glyndŵr o bosibl. Bydd y celc yn chwarae rhan sylweddol yn arddangosfeydd newydd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Ymhlith caffaeliadau casgliadau'r gwyddorau naturiol oedd cneppynnau aur a gasglwyd o leoliadau tra hysbys yn ardal Dolgellau a dwy sampl o fwyn aur Cymru. Caiff y rhain eu defnyddio i ymchwilio i ôl bys aur Cymru; ar gyfer project ail-greu Mantell Aur yr Wyddgrug ac ar gyfer y Rhaglen bartneriaeth.

Gweithgarwch Ymchwil

Mae ein hymchwil yn gwneud cyfraniad allweddol at wella dealltwriaeth o dreftadaeth, diwylliant ac amgylchedd naturiol Cymru, ac yn sail i'n holl wasanaethau cyhoeddus a gwaith y llywodraeth, prifysgolion ac ymchwilwyr annibynnol eraill. Gall rhai projectau ymchwil roi canlyniadau cyflym tra bo eraill yn para rhai blynyddoedd. Rydym yn parhau i gael ein cydnabod yn Sefydliad Ymchwil Annibynnol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid ym mhob sector perthnasol, yng Nghymru a thu hwnt.

Trwy ymchwilio i'n defnyddwyr, rydym wedi gallu gwella ansawdd ein harlwy i'r cyhoedd. Rydym wedi cyflawni ymchwiliad mawr er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o'n hymwelwyr ym mhob un o'r saith amgueddfa; dyma'r tro cyntaf i ni gynnal astudiaeth mor fanwl a chynhwysfawr. Bydd y canlyniadau yn sail i newidiadau ymarferol i'n gwasanaethau.

Mae canfyddiadau gwaith ymchwil arall i agweddau cyhoeddus wedi bod yn werthfawr i ni a sefydliadau partner ym maes treftadaeth, diwylliant ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Comisiynwyd ymchwil gennym i ffynonellau cyfredol ar gyfer gwerthuso dealltwriaeth y cyhoedd o hanes Cymru ar ran Grŵp Ymgysylltu â'r Cyhoedd Hanes Cymru, y mae ei aelodau'n cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Prifysgol Abertawe, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CyMAL. Mae'r grŵp yn adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad wrth iddo geisio galluogi sefydliadau eraill sydd â chyfrifoldeb dros ymgysylltu'r cyhoedd â hanes i wneud hynny trwy ymateb i anghenion defnyddwyr.

Yn ogystal â hyn, mae menter tair blynedd *Our Museum* a ddatblygwyd gyda chymorth Sefydliad Paul Hamlyn yn canolbwyntio ar ymchwil ymarferol i ganfod sut gall cydweithio ag asiantaethau eraill wella ymgysylltiad â'r bobl a'r cymunedau y mae mwyaf angen ysbrydoliaeth a chefnogaeth arnynt.

Wrth wraidd ein blaenoriaethau mae anghenion arddangosfeydd ac ail-arddangos y casgliadau, ac yn aml iawn mae gwerth parhaol yr ymchwil hwn wedi'i gadw ar glawr drwy gyhoeddiadau awdurdodol. Ymhlith enghreifftiau arwyddocaol y flwyddyn hon oedd gwaith ar gyfer arddangosfeydd am y naturiaethwr ac anturiaethwr o fri, Alfred Russel Wallace; tad bedydd paentio tirluniau Prydeinig, Richard Wilson; yr artist Ôl-argraffiadol blaengar, James Dickson Innes; yr artist gwydr o Ffrainc, Maurice Marinot; printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf ac ailarddangos yr orielau cerameg Cymreig i gyd-fynd â deucanmlwyddiant porslen Cymreig.

Anghenion arddangos a lywiodd ein hymchwil hefyd i gynrychiolaeth, neu ddiffyg cynrychiolaeth digonol cymunedau yng Nghymru trwy brojectau cydguradu; dulliau o ymgysylltu cynulleidfaoedd newydd â *Salisbury Cathedral from the Meadow* (1831) gan Constable; a'r defnydd o dechnolegau sganio ac argraffu 3D i ysgogi ymgysylltiad â'r casgliadau. Roedd gwaith ymchwil arall yn cynnwys canolbwyntio ar allu ateb

ymholiadau'r cyhoedd mor effeithiol â phosib, er enghraifft astudio doliau gwisg Gymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Sain Ffagan a chasgliadau cyhoeddus eraill ar draws y DU er mwyn ateb y galw am wybodaeth awdurdodol, a digideiddio ein casgliadau o safon ryngwladol o gregyn molysgiaid er mwyn eu cyhoeddi ar-lein. Llywiodd canlyniadau gwell cadwraeth o'n casgliadau ymchwil technegol i ddadansoddi sbesimenau a gedwir mewn hylif a gweddillion plaladdwyr ar wrthrychau hanes natur.

Rydym yn parhau i chwarae rôl unigryw wrth gynnal ymchwil sylfaenol sy'n cynhyrchu gwybodaeth newydd ac yn gwella gwybodaeth gyfredol am Gymru, ei diwylliant a'i hamgylchedd. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi addysg ym mhedwar ban. Er enghraifft, parhawyd i gynnal ymchwil archaeolegol ar ôl cloddio i'r olion Palaeolithig a ganfuwyd mewn ogofâu ar draws de-orllewin Cymru, anheddiad Mesolithig cynnar yn Burry Holms, anheddiad yr Oes Efydd Ddiweddar yn Llan-faes a'r dref Rufeinig yng Nghaer-went.

Ym maes y gwyddorau naturiol, galluogodd ein gwaith ar fflora diatom afonydd Cymru i ni ddatblygu gwefan i adnabod diatomau dŵr croyw; llwyddodd gwaith nodweddu ar ddyddodion manganis mewn dyddodion Palaeosöig Is i gynyddu ein gwybodaeth sylfaenol am fwynau Cymreig; a datblygwyd ein dealltwriaeth o safle Cymru ym mhatrymau'r symudiad cyfandirol trwy astudio tiffurfiau yn Ynys Môn a Phen Llŷn.

Mae ymchwil o fewn ein casgliadau hefyd wedi cyfrannu'n sylweddol at ein gwybodaeth, er enghraifft dadansoddiad petrolegol o offer Neolithig er mwyn canfod ym mhle y cawsant eu cynhyrchu, catalogio celc o geiniogau canoloesol o'r Fenni, dogfennu carreg addurnol a ddefnyddiwyd mewn cyd-destunau pensaernïol ac addurnol yn Ynysoedd Prydain, a chyfrannu at dacsonomeg fflora a ffawna byd-eang, gan gynnwys y rheini yr effeithir arnynt gan newid yn yr hinsawdd a phobl.

Yn rhan o lawer o'n projectau, rydym yn cydweithio'n eang. Yn yr achosion hyn mae ein gallu i gyrraedd cynulleidfaoedd eang, cynnal casgliadau parhaol a chynnal arbenigedd yn dra gwerthfawr. Ymhlith yr enghreifftiau mae cyd-arolygu Ysgoloriaeth Ymchwil PhD Doethurol Cyfun gyda Phrifysgol Aberystwyth ar yr arlunydd o Gymru, Ivor Davies, a'r mudiad 'Destruction in Art' y 1960au; ein seminarau ymchwil ffotograffiaeth chwarterol ar y cyd â Phrifysgol De Cymru a'r project Ffotograffau Hanesyddol a noddir gan Esmée Fairbairn; cynorthwyo'r project mawr ar archaeoleg, ieithyddiaeth a geneteg a noddir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, a chydweithio â Choleg Prifysgol Llundain, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Aberystwyth ar waith cyffrous newydd i ganfod tarddiad cerrig gleision Côr y Cewri.

Ym maes y gwyddorau naturiol yn arbennig, mae ein partneriaethau ymchwil yn ymestyn i bedwar ban byd gan gynnwys prifysgolion yn Iwerddon, Canada, Iran, De Affrica a Gwlad Thai ac amgueddfeydd yng Ngwlad Belg, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Kenya a Brasil. Rydym wedi cefnogi anghenion ymchwil llywodraethol yn llawer o'r gwledydd hyn a noddwyd ein gwaith gan Ymddiriedolaeth Leverhulme, Sefydliad Shackleton ac Ymddiriedolaeth Ynysoedd Falkland ymhlith eraill.

Addysg a Chyfranogiad

Ni yw'r prif ddarparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru. Rydym yn croesawu 210,000 o blant a myfyrwyr i'n hamgueddfeydd bob blwyddyn. Yn 2013/14, croesawyd mwy na 200,000 o ddysgwyr anffurfiol a denwyd 59,000 o bobl i fanteisio ar gyfleoedd addysg tu hwnt i'n safleoedd.

Datblygir a darperir ein darpariaeth addysg ar y cyd ag asiantaethau allweddol ac mae'n cwmpasu addysg y blynyddoedd cynnar, y teulu, y gymuned ac addysg oedolion, yn ogystal ag addysg ffurfiol. Ni yw'r prif ddarparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru. Bydd bron i un filiwn o'r 1.6 miliwn sy'n ymweld â ni'n dod yma gyda grŵp teulu – sy'n golygu mai ni hefyd yw un o'r darparwyr addysg a phrofiadau anffurfiol mwyaf i deuluoedd.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein henw da am fod yn ganolfan arbenigedd yng Nghymru o ran cyfranogaeth ddiwylliannol a chynhwysiant ym maes diwylliant a threftadaeth. Mae'r ymagwedd gyfranogol a chydgyhyrchiol rydym yn ei harddel wrth ddatblygu a gwireddu Sain Ffagan ar ei newydd wedd yn cael ei chydnabod ledled y Deyrnas Unedig yn enghraifft o'r arfer gorau.

Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Gweithio gyda Fforymau Ieuenctid Sain Ffagan dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn partneriaeth â gwahanol sefydliadau ac asiantaethau, gan gynnwys Plant yng Nghymru, Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol, The Prince's Trust – Cymru a'r Urdd. Maent wedi bod yn rhan o waith datblygu dylunio adeiladau a chynnwys arddangosfeydd. Mae'r effaith ar hunan-barch a hyder ymhlith aelodau'r fforymau wedi cael ei gofnodi ac mae'r adborth yn awgrymu newid yn eu canfyddiadau o amgueddfeydd
- Rydym yn datblygu ein harbenigedd a'n capasiti ym maes gwirfoddoli a datblygu sgiliau drwy gydweithio â darparwyr ac asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, er enghraifft trwy ein rhaglen *Our Museum*. Mae Sefydliad Paul Hamlyn wedi cydnabod y model hwn yn enghraifft dda o arfer da yn y DU. Mae gennym bartneriaethau helaeth a rhwydweithiau lleol ar draws Cymru hefyd.

Rydym yn arwain gwaith ymchwil i werth a swyddogaeth cyrff diwylliannol o ran mynd i'r afael â chanlyniadau tldi a hyrwyddo cynhwysiant a chydardoldeb mynediad at gyfranogiad diwylliannol.

- Yn dilyn cynhadledd i'r Deyrnas Unedig gyfan ar dlodi plant a gynhaliwyd gennym yn 2012, ym mis Hydref 2013, cynhaliwyd seminar ymchwil am gyfranogiad diwylliannol plant a phobl ifanc sy'n wynebu tldi, gan ddwyn ynghyd noddwyr, llunwyr polisïau, ymchwilwyr ac ymarferwyr o'r sector diwylliannol a sectorau eraill.
- Rydym wedi sefydlu grŵp llywio Cyfranogiad Diwylliannol a Thldi sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lenyddiaeth Cymru, Dinas a Sir Abertawe a Llywodraeth Cymru.
- Rydym yn gweithio'n agos gyda'r sector addysg uwch a noddwyr yn y maes ac yn dechrau datblygu fframwaith moeseg gyda golwg ar gydraddoldeb ym maes cyfranogiad diwylliannol. Byddwn yn ei ddatblygu mewn ffordd gydgynhyrchiol gyda rhanddeiliaid (gan gynnwys teuluoedd a phobl ifanc), llunwyr polisïau, ymchwilwyr ac ymarferwyr.

Mae ein harweiniad yn y maes addysg ac ymgysylltu yn cael ei gydnabod yn yr adroddiad diweddar gan y Farwnes Kay Andrews a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, *Diwylliant a Thldi: Defnyddio'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru*. Lansiodd y Llywodraeth yr adroddiad hwn ym mis Mawrth 2014 ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid cenedlaethol a Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argymhellion.

Arddangosfeydd

Ni yw prif gynhyrchwr arddangosfeydd diwylliannol, treftadaeth a'r gwyddorau naturiol yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda'n cymunedau, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ar draws ein hamgueddfeydd i gynhyrchu arddangosfeydd ac arddangosiadau sy'n apelgar i'n holl ymwelwyr. Yn 2013/14, darparwyd deugain ac un o arddangosfeydd, gan gynnwys yn ein lleoliad partner Oriol y Parc, ac arddangosfeydd teithiol oedd yn canolbwyntio ar ein cynulleidfaoedd targed, sef twristiaid, teuluoedd a phobl ifanc. Cafwyd dros 400,000 o ymweliadau â'n harddangosfeydd dros dro yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn unig.

Un fenter fawr fu cydlynu a datblygu rhaglen bum mlynedd i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd yn rhan o raglen goffâu Cymru gyfan ac yn cynnwys arddangosfeydd ac ystod o raglenni cyhoeddus. Mae llawer ohonynt yn cael eu datblygu ar y cyd â phobl ifanc, cymunedau a phartneriaid eraill. Rydym ni'n gweithio gydag ystod o bartneriaid gwahanol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol fel rhan o'r project hwn gan gynnwys y BBC, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Lluoedd Arfog, Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol, a'r Oriol Bortreadau Genedlaethol yn Llundain. Rydym wedi llwyddo i ennill nawdd am bedair blynedd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhaglen.

Ymhlith uchafbwyntiau rhaglen arddangosfeydd dros dro 2013/14, mae:

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (celf)

- *Quietus* (10,045 o ymweliadau)
- *Visions of Mughal India: The Collection of Howard Hodgkin* (28,945 o ymweliadau)
- *Llareggub: Darluniau Peter Blake ar gyfer Under Milk Wood gan Dylan Thomas* (24,616 o ymweliadau). Cafwyd £65,000 o werthiant yn sgil yr arddangosfa hon hefyd. Teithiodd i Oriol y Parc gan agor ym mis Ebrill 2014. Carem ddiolch i Syr Peter Blake am ei gymorth amhrisiadwy i'r arddangosfa.
- *Tirluniau gan J. D. Innes: Gogoniant y Gwyllt* (19,645 o ymweliadau)
- *Pop a Haniaethol*

Roedd yr arddangosfa hon hefyd yn cynnwys yr arddangosfeydd llai, *Dan Rees: Gwymon a Holly Davey: Nothing Is What It Is Because Everything Is What It Isn't* (83,128 o ymweliadau)

- *Uncommon Ground: Land Art in Britain 1966-1979* (30,953 o ymweliadau)
- *Ymweliad â Chymru: Barddoniaeth, Rhamantiaeth a Myth Byd Celf* ac *Andrea Buettner: Priodas Gudd* (30,155 o ymweliadau hyd yn hyn)

Rydym hefyd wedi croesawu arddangosiadau teithiol o waith Manet a Constable gyda chymorth Tate, Aspire, y Gronfa Gelf a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (y gwyddorau naturiol)

- *Wildlife Photographer of the Year 2013* (19,719 o ymweliadau)
- *Bîns ar Dost* (37,792 o ymweliadau)
- *Wallace: Gŵr Angof Esblygiad* (25,831 o ymweliadau)
- *Wildlife Photographer of the Year 2014* (13,758 o ymweliadau)

Ein hamgueddfeydd eraill:

- Arddangosfeydd *Changing Isca a Lliwiau'r Rhufeiniaid* (Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru)
- *Worktown: Lluniadau Falcon Hildred* (Amgueddfa Lechi Cymru)
- *Hen Greiriau Bach* (Big Pit)
- *Dŵr dan y Bont – Camlesi Cymru a Pŵer i'r Bobl – Cynhyrchu Trydan yng Nghymru* (Amgueddfa Genedlaethol y Glannau).

Rydym yn parhau i weithio ar wella'r seilwaith. Rydym wedi gosod systemau hongian newydd yn Big Pit ac Amgueddfa Wlân Cymru, a system rheoli goleuadau newydd yn orielau celf y bloc canol a'r adain ddwyreiniol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Codi Arian a Gwirfoddolwyr

Roedd 2013/14 yn flwyddyn lwyddiannus arall o ran codi arian, gydag incwm o roddion a chymynroddion o £1,621,000 a £1,120,000 o addewidion. Cafwyd £1,264,000 o roddion ar ffurf asedau treftadaeth hefyd.

Canolbwyntiwyd ar gynhyrchu a gweithredu ymgyrch godi arian ar gyfer ailddatblygu Sain Ffagan, a lansiwyd mewn digwyddiad mawr ym mis Hydref. Y swm i'w godi oedd £2.828 miliwn, sef yr ymgyrch fwyaf o'i math i ni ei chynnal. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd £1 miliwn eisoes wedi'i godi, a chodwyd £1.1 miliwn arall yn ystod 2013/14.

Cafwyd rhoddion mawr gan Sefydliad Garfield Weston (£300,000), Cronfa Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog (£249,000), Sefydliad Foyle (£100,000), Sefydliad Moondance (£100,000), Sefydliad Dyfrig a Heather John (£35,000), Cyngor Celfyddydau Cymru (£20,000) ac Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson (£10,000). Lansiwyd menter newydd hefyd, sef Cylch Cyfrannu Sain Ffagan, i annog rhoddwyr mawr i gefnogi'r ailddatblygiad trwy roi rhoddion rhwng £1,000 a £25,000. Cyfrannodd aelodau'r Cylch Cyfrannu £73,000 heb gynnwys Cymorth Rhodd.

Hefyd, rhoddodd People's Postcode Trust £100,000 yn rhan o berthynas tymor hir newydd i gefnogi dwy brentisiaeth newydd yn Sain Ffagan a rhaglenni Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Rhoddodd Ymddiriedolaeth Pilgrim £10,000 i gefnogi paneli coffáu Stradling.

Roedd cefnogaeth ar gyfer projectau eraill yn cynnwys grant o £473,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri tuag at gaffaeliad John Piper a gweithgarwch cysylltiedig, £61,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at Mathemateg mewn Amgueddfeydd, £9,000 gan Gronfa Gymunedol Cemex tuag at y Ddôl Drefol, £10,000 gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru tuag at y Fforymau Ieuenctid, £7,000 gan Cadw tuag at broject Ogof Cathole a £7,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at Wyl Fwyd Sain Ffagan.

Mae cefnogaeth hael yn dal i gael ei rhoi gan Ymddiriedolaeth Colwinston tuag at raglen gelf gyfoes yr Amgueddfa Gelf Genedlaethol; Ymddiriedolaeth Derek Williams tuag at gaffaeliadau ac arddangosfeydd celf; Sefydliad Paul Hamlyn tuag at raglen *Our Museum* ac Ymddiriedolaeth Edina tuag at broject Bylbiau'r Gwanwyn.

Croesawodd y Cynllun Noddwyr chwe aelodaeth newydd yn 2013/14, gan gynnwys tair aelodaeth oes, gan godi cyfanswm o £40,000 mewn incwm tanysgrifio. Yn ogystal â thanysgrifiadau, cafwyd £7,000 o roddion i gefnogi rhaglen addysg yr arddangosfa ar Alfred Russel Wallace yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a dau broject oedd yn rhan o'r rhaglen i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn Amgueddfa Wlân Cymru.

Parhaodd Cyfeillion Amgueddfa Cymru i gefnogi ein gwaith mewn tair prif ffordd.

- Fel llysgenhadon dros ein gwaith, gan ddarparu rhaglen o sgysiau, teithiau a gweithgareddau eraill sy'n ategu gweithgareddau addysgol Amgueddfa Cymru.
- Trwy ddarparu grŵp o wirfoddolwyr i gefnogi'n gwaith. Mae Cyfeillion yn cyfarfod a chyfarfod grwpiau ac unigolion, fel grwpiau Cyfeillion amgueddfeydd eraill ac ymwelwyr achlysurol, a hefyd yn helpu staff curadurol ym mhob un o'n meysydd gwaith. Mae'n bwysig nodi ein bod yn ystyried hyn yn ychwanegiad gwerthfawr at ein gwaith.
- Trwy roi cymorth ariannol i nifer o brojectau a noddi'r datganiadau ar yr organ yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac, eleni, trwy gyfrannu'n hael at broject ailddatblygu Sain Ffagan trwy roi nawdd cyfatebol er mwyn galluogi i ni ddymchwel y Pentref Celtaidd ac adeiladu fersiwn newydd, Bryn Eryr, mewn man arall ar y safle.

Bu ein Cydlynnydd Gwirfoddolwyr hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr i wella'r cyfleoedd i wirfoddoli yn sylweddol. O ganlyniad, derbyniodd Amgueddfa Cymru 4,113 awr o gyfraniad gan wirfoddolwyr yn ystod 2012/13. Roedd hyn yn adlewyrchu cyfraniad y gwirfoddolwyr tuag at: gwaith cerdded maes archaeolegol, gwaith tu ôl i'r llenni mewn adrannau curadurol a chadwraeth, Teithiau Celf, gweithgareddau addysg ar gyfer y cyhoedd a helpu i gynnal a chadw ein gerddi a'r fferm. Mawr yw ein dyled iddynt am eu hymroddiad i'r elfen hon o'n gweithgareddau sydd ar gynydd.

Adroddiad ar Gynaliadwyedd

O 2012/13 ymlaen, mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gynnwys Adroddiad Cynaliadwyedd yn ei Adroddiad Ariannol yn unol â'r canllawiau a bennir gan Drysorlys EM yn *Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting Guidance*. Mae'r canllawiau hyn yn cyd-fynd ag ymrwymadau Llywodraeth Werdd sy'n berthnasol i gyrrff Llywodraeth Ganolog. Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio yn unol â'r canllawiau hynny.

Ein nod yw creu amgueddfeydd cynaliadwy trwy ddatblygu arferion cynaliadwy ar gyfer y saith amgueddfa a hyrwyddo ffordd o fyw gynaliadwy drwy'r arddangosfeydd, digwyddiadau a rhaglenni addysg, er enghraifft helpu ysgolion i hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy drwy ein project SCAN. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid megis Cynnal Cymru, Sustrans a'r Ymddiriedolaeth Garbon ar faterion datblygu cynaliadwy.

Hefyd, nod llawer o'n hymchwil craidd yw gwella dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol a diwylliannol, er enghraifft ymchwil i newid yn yr hinsawdd.

Mae gennym Fforwm Datblygu Cynaliadwy sy'n ystyried materion, gwneud argymhellion i'r cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr yn unol â hynny a sbarduno datblygiad polisi. Mae'r Fforwm yn weithgar drwy hyrwyddo arferion datblygu cynaliadwy ar draws pob safle.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Amgueddfa Cymru yn mynd ati i greu amgueddfa gynaliadwy, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol, ewch i www.amgueddfacymru.ac.uk/cynaliadwyedd.

Perfformiad

Mae gwarchod trysorau'r genedl ac agor ein drysau i dros 1.6 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn yn defnyddio llawer o ynni. Mae ein Polisi Ynni wedi'i fabwysiadu fel cam mawr ymlaen tuag at wella effeithlonrwydd ynni, ac fel prawf o'n cefnogaeth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Rydym yn cymryd rhan yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni yr Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC).

Yn 2013/14 roedd gostyngiad o 7.6% yn yr allyriadau ar y cyfan, gyda llai o nwy a thrydan yn cael ei ddefnyddio.

Roedd 24.7% o gynnydd yng nghyfanswm y gwastraff yn 2013/14 a hynny oherwydd y gwaith adeiladu yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Fodd bynnag, y gostyngiad mewn gwastraff tirlenwi yn y tair blynedd ers 2010/11 yw 24.4%.

Cynyddodd y defnydd o ddŵr 26.6% yn 2013/14 oherwydd gollyngiadau a phroblemau eraill. Fodd bynnag mae cyfanswm defnydd dŵr wedi gostwng 29.7% ar y cyfan yn y tair blynedd ers 2010/11.

Mae'r tablau isod yn darparu gwybodaeth ariannol ac anariannol manwl am allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff a'r defnydd o adnodd y mae pen draw iddo (dŵr). Mae data allyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2 ynghylch nwyon tŷ gwydr wedi'i gael o'n cronfa ddata CRC, mae allyriadau cwmpas 3 wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio ffigurau milltired blyneddol a ddarparwyd gan y cyflenwr llogi ceir, y data gwastraff wedi'i gasglu o adroddiadau gwastraff safleoedd unigol, a data defnydd o ddŵr wedi'i gael o wybodaeth ar filiau.

Allryiadau Nwyon Tŷ Gwydr		2013/14	2012/13	2011/12	2010/11
Dangosyddion anariannol (tCO ₂)	Allyriadau Cwmpas 1 (Uniongyrchol) – nwy	1,600	1,763	1,430	1,415
	Allyriadau 2 (Anuniongyrchol) – trydan a brynwyd	3,464	3,732	3,903	4,203
	Allyriadau Cwmpas 3 (Teithio busnes)	45	36	36	36
	Cyfanswm	5,109	5,531	5,369	5,654
Defnydd cysylltiedig o ynni (kWh'000)	Nwy	8,673	9,540	7,732	7,650
	Trydan	6,404	7,109	7,434	8,007
	Cyfanswm	15,077	16,649	15,166	15,657
Dangosyddion ariannol (£)	Nwy	268,211	296,370	216,011	164,322
	Trydan	587,226	644,728	617,046	591,541
	Ffi gweinyddu CRC	1,290	1,290	1,290	1,290
	Teithio ar Fusnes Swyddogol	198,233	175,775	166,418	172,184
	Cyfanswm	1,054,960	1,118,163	1,000,765	929,337

Targedau a Pherfformiad

Mae ein Datganiad Amgylcheddol wedi gosod targed, sef cynhyrchu 2% yn llai o CO₂ trwy ynni a chludiant bob blwyddyn. Yn 2013/14 roedd gostyngiad o 7.6% ar ôl cynnydd o 3.0% yn 2012/13 yn sgil y gaeaf anarferol o arw a hir. Bu gostyngiad o 9.6% yn y tair blynedd ers 2010/11.

Mae'r gostyngiad yn y defnydd o drydan wedi'i gyflawni drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys gosod uned gwres a phŵer cyfunol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn 2011/12, gosod paneli solar yn Big Pit a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn 2012/13 a chyfres o fentrau TG a roddwyd ar waith o 2011/12 ymlaen.

Ers rhai blynedd bellach, rydym yn annog staff ac ymwelwyr i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy ar gyfer teithiau i'n safleoedd, er enghraifft mae cynllun aildatblygu Sain Ffagan yn cynnwys cynllun teithio fydd yn hyrwyddo teithio cynaliadwy i ymwelwyr a staff. Mae uwchraddio'r cyfarpar fideogynadleda yn 2011/12 hefyd wedi lleihau nifer y teithiau rhwng safleoedd ar gyfer cyfarfodydd.

Gwastraff		2013/14	2012/13	2011/12	2010/11
Dangosyddion anariannol (tunelli)	Gwastraff peryglus	0.0	0.6	0.4	1.1
	Gwastraff nad yw'n beryglus:				
	- Tirlenwi	783.0	697.7	907.9	1,035.7
	- Ailddefnyddio/Ailgylchu	2099.2	1,629.1	1,239.5	1,100.0
	- Llosgi	24.7	3.2	3.2	3.2
	Cyfanswm y gwastraff	2,906.9	2,330.6	2,151	2,140
Dangosyddion ariannol (£)	Cyfanswm cost gwaredu	37,268	29,981	25,159	22,778

Targedau a Pherfformiad

Targed ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth ar wastraff yw gostyngiad o 25% yng nghyfanswm y gwastraff o lefelau 2009/10 erbyn 2015.

Rydym yn annog lleihau gwastraff drwy fwy o ailgylchu a hyrwyddo ailddefnyddio a lleihau defnydd yn frwd ar draws ein holl safleoedd.

Roedd 24.7% o gynnydd yng nghyfanswm y gwastraff yn 2013/14 a hynny oherwydd y gwaith adeiladu yn Sain Ffagan. Bu gostyngiad o 21.1% yng nghyfanswm y gwastraff yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol a 9.9% yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a bu peth gostyngiad yn nau o'r safleoedd eraill hefyd. Y gostyngiad mewn gwastraff tirlenwi yn y tair blynedd ers 2010/11 yw 24.4%.

Y Defnydd o Adnodd y Mae Pen Draw Iddo		2013/14	2012/13	2011/12	2010/11
Dangosyddion anariannol ('000m ³)	Cyfanswm defnydd dŵr	26,434	20,875	31,929	37,593
Dangosyddion ariannol (£)	Cyfanswm costau cyflenwad dŵr	74,915	71,774	93,128	110,460

Targedau a Pherfformiad

Mae ein Polisi Ynni yn gosod targed i leihau'r defnydd o ddŵr 5% y flwyddyn. Yn 2013/14 bu cynnydd yn y defnydd dŵr o 26.6% oherwydd gollyngiadau yn Sain Ffagan a Big Pit (mae rhai wedi eu trwsio, ac eraill yn cael eu harchwilio), a phroblemau gyda'r system casglu dŵr glaw yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Mae cyfanswm defnydd dŵr wedi gostwng 29.7% ar y cyfan yn y tair blynedd ers 2010/11.

Strategaeth y Dyfodol

Yn 2014/15, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma wrth leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd, gwastraff a'r defnydd o ddŵr. Mae cynlluniau'n cynnwys gosod system oleuo a rheoli yn orielau celf yr adain ddwyreiniol a'r bloc canol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ymchwilio i ddichonoldeb gosod uned gwres a phŵer cyfunol yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a chwblhau'r cam olaf o gyflwyno Rhwydwaith Argraffwyr yr Amgueddfa fesul cam. Rydym hefyd yn ystyried opsiwn i gysylltu â'r Cynllun Gwresogi Rhanbarthol arfaethedig, sy'n cael ei ddatblygu yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, ac â chynllun tebyg yn Abertawe all fod yn gyfle i leihau costau ynni yn y tymor hirach.

Bioamrywiaeth

Ein nod yw diogelu, gwarchod, gwella ac adfer planhigion ac anifeiliaid amrywiol yr holl safleoedd. Mae archwiliadau bioamrywiaeth wedi'u cynnal ar ein holl safleoedd, gan ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo â phenderfyniadau ac ymdrechion cadwraeth effeithiol.

Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, bydd datblygiad yr Amgueddfa Hanes Natur yn y dyfodol yn cyfrannu'n sylweddol at y trafodaethau cyfoes ar gynaliadwyedd, newid yn yr hinsawdd a dirywiad bioamrywiaeth. Y cysylltiad rhwng pobl a'r amgylchedd naturiol fydd un o themâu allweddol Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru hefyd. Mae arddangosfeydd teithiol yn cynnig cyfle pellach i drin a thrafod ein heffaith ar y byd.

Caffael Cynaliadwy

Rydym wedi mabwysiadu Polisi a Chynllun Gweithredu Caffael Cynaliadwy fel ymrwymiad i gaffael cynaliadwy. Mae'n mynd i'r afael â chostau ac effeithiau oes ein cynhyrchion a'n gwasanaethau, ac yn gwerthuso perfformiad amgylcheddol ein cyflenwyr a'n contractwyr.

Llywodraethu

Rydym wedi mabwysiadu system rheoli amgylcheddol trwy gyfrwng BS8555, a datblygu polisiau craidd fel bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein gweithrediadau:

- Safon Amgylcheddol SEREN BS8555 – rydym wedi cyrraedd Cam 3 y Safon hon ar draws y sefydliad
- Polisi a Chynllun Gweithredu Caffael Cynaliadwy
- Polisi Ynni

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon ac wedi gweithredu ei hargymhellion yn dilyn cyfres o asesiadau ynni.

Mae ein harferion, prosesau a llwyddiannau cynaliadwy yn cael eu hasesu'n allanol yn unol â BS8555 ac o dan Ymrwymiad Lleihau Carbon y Llywodraeth. Maent hefyd yn rhan o fframwaith cyffredinol rheolaeth fewnol, a cheir disgrifiad manylach o hyn yn y Datganiad Llywodraethu sy'n rhan o'r Adroddiad Ariannol hwn.

Fformat y Cyfrifon

Caiff y cyfrifon eu paratoi o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2005) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau'.

Wedi'u hymgorffori i ffigurau cyfunol Amgueddfa Cymru mae canlyniadau masnachu'r is-gwmni sy'n llwyr eiddo i'r Amgueddfa, sef Mentrau Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru Cyf (Mentrau AOCC Cyf). Y cwmni hwn sy'n gweithredu holl weithgareddau masnachu Amgueddfa Cymru. Mae cyfran yr Amgueddfa o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA Cyfyngedig), sef 50%, yn rhan o'r ffigurau cyfunol hefyd. Dyma fenter ar y cyd, a gyfyngir gan warant, gyda Dinas a Sir Abertawe, a'i phrif bwrpas oedd datblygu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

Prisio Asedau Sefydlog

Yn ôl ein polisi cyfrifyddu ar brisio Asedau Sefydlog, rhaid i asedau eiddo gael eu hailbrisio gan arbenigwyr bob pum mlynedd. Nid yw'r broses ailbrisio bob pum mlynedd yn berthnasol i asedau eraill gan gynnwys asedau treftadaeth a'r rhai dan benawdau ehangach fel peiriannau, cerbydau neu osodiadau a ffitiadau eraill. Mae'r polisi cyfrifyddu yn cynnwys darpariaeth hefyd i ddefnyddio mynegeion i addasu'r asedau hynny sydd wedi'u hailbrisio'n broffesiynol, yn y blynyddoedd rhwng yr ailbrisiadau proffesiynol bob pum mlynedd.

Cafodd asedau sy'n gysylltiedig ag eiddo eu hailbrisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2011.

Nid yw'r asedau treftadaeth a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi eu cyfalafu, ac mae asedau treftadaeth a brynwyd neu a gafwyd fel rhoddion ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi ar sail eu cost neu brisiant. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn credu bod modd cyfiawnhau costau sylweddol prasio casgliad mor fawr o asedau treftadaeth, ar sail cost a budd, i gael yr hyn a fyddai'n ddim mwy na phris ar un eiliad benodol mewn amser. Yn unol â Safon Adrodd Ariannol (FRS) 30 ar asedau treftadaeth, trafodir datgeliadau yn Nodyn 10 y cyfrifon.

Adlewyrchir y buddiant sydd gan Amgueddfa Cymru yn yr eiddo yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gan y gyfran o 50% sydd ganddi yn y cwmni menter ar y cyd gyda Dinas a Sir Abertawe. Mae Nodyn 8 y cyfrifon yn dangos manylion y buddiant yn y gyd-fenter hon.

Perfformiad Talu Prydlon

Rydym yn dilyn amcanion oed ymarfer *Better Payment* Trysorlys Ei Mawrhydi a'i nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod o'u derbyn. Naw diwrnod calendr oedd cyfartaledd yr amser a gymerwyd i dalu anfonebau yn ystod 2013/14 (deg diwrnod yn 2012/13), sy'n cynnwys 96% (yn ôl nifer) o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (96% yn 2012/13). Ni wnaed taliadau llog dan y Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998 (£Dim yn 2012/13).

Y Polisi ar Gronfeydd Cadw

Â ninnau'n gorff sy'n gyfrifol am gasglu a chynnal asedau treftadaeth, gan gynnwys tir ac adeiladau, er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion, mae'r polisi ar gronfeydd cadw yn berthnasol i gronfeydd arian i'w wario yn unig, ac nid i gyfanswm y gronfeydd a ddelir.

Mae'r polisi hwn yn parhau i fod yn ddibynnol ar, ac wedi'i gyfyngu gan, yr awdurdod a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ein Cytundeb Fframwaith a oedd yn cyfyngu'r gronfeydd cadw ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2013/14 i 2% o'n cymorth grant, gydag eithriadau rhag unrhyw gyfyngiad o ran Grant Prynu Sbesimenau ac incwm hunangynhyrchiol. Gall eithriadau cyffredinol a phenodol pellach fod ar gael ar gais mewn perthynas ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (i adlewyrchu'r trefniant cydariannu gyda Dinas a Sir Abertawe), a phrojectau cyfalaf sy'n pontio diwedd y flwyddyn ariannol. Ar ddiwedd 2013/14, cytunodd Llywodraeth Cymru i gynyddu ein cyfyngiad ar gario arian drosodd mewn perthynas â nawdd cyfalaf.

Cynhelir gronfeydd preifat ar wahân ac fe'u nodir yn y cyfrifon. Nid oes unrhyw derfyn ar gario'r rhain drosodd, a'n polisi ni yw adeiladu'r gronfeydd hyn a'u cadw i'w defnyddio ar brojectau a chynlluniau cyfalaf nad oes modd derbyn cyllid craidd na chymorth grant ar eu cyfer, gan gadw o fewn unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd sydd yn y Cronfeydd Preifat.

Caiff elw'r is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni, Mentrau AOCC Cyf, ei ddefnyddio i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at ein nodau a'n hamcanion. Ar adegau, gall hyn olygu ail-fuddsoddi elw yn yr is-gwmni masnachu er mwyn gwella'r elw masnachu ymhellach.

Er gwaetha'r anawsterau presennol ynghylch arian cyhoeddus a her y sefyllfa economaidd o ran codi arian o ffynonellau preifat, rydym yn benderfynol o barhau â'r cynllun tymor hir o ddatblygiadau cyfalaf a gwneud gwaith adnewyddu yn ein safleoedd er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Weledigaeth. Er mwyn ariannu'r datblygiadau hyn yn rhannol a rheoli cyllidebau'n ddarbodus, mae'n hanfodol cadw'r hyblygrwydd mwyaf posibl wrth gadw gronfeydd, ar ffurf cario arian drosodd, gronfeydd preifat ac elw masnachol.

Cyfanswm y Cronfeydd ar 31 Mawrth 2014 oedd £90,965,000. Ceir dadansoddiad yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon Ariannol.

Polisi a Pherfformiad Buddsoddiadau

Rheolir ein buddsoddiadau gronfeydd preifat gan ein hymgyngorwyr, sef Barclays. Mae ein polisi buddsoddi yn derbyn cyfnewidioldeb tymor byr wrth geisio sicrhau enillion buddsoddi cadarnhaol yn dilyn effeithiau chwyddiant, ac yn cydnabod y gall gwerth cyfalaf newid yn arwyddocaol o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn cyfrifon arian parod, i fod ar gael yn rhwydd i'w buddsoddi yn y rhaglen gyfalaf.

Mae perfformiad y cronfeydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson, gan wneud newidiadau i'r portffolio fel sy'n briodol i'r lefel o risg sy'n dderbyniol. Cynyddodd gwerth y portffolio yn ystod y flwyddyn o £2,308,000 i £2,453,000.

Hefyd, cadwodd Amgueddfa Cymru, trwy gymynroddion, fuddsoddiad ecwiti mewn un ar ddeg cwmni o'r radd flaenaf. £80,000 oedd gwerth y portffolio hwn, yr un gwerth â dechrau'r flwyddyn.

Felly, cyfanswm gwerth y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2014 oedd £2,533,000.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae gennym Gynllun Pensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd ar gael i'r holl staff parhaol. Fel y mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae prisiadau blynyddol diweddar a welir ar y fantolen yn dangos diffyg ariannol o gymharu â rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae trafferthion y marchnadoedd ecwiti, ynghyd â'r rhwymedigaethau cynyddol dan y Cynllun yn sgil llawer o ffactorau fel yr aelodau'n byw'n hirach, yn golygu bod llawer o Gynlluniau o'r fath dan bwysau, gyda llawer ohonynt yn cau yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r prisiad a welir ar fantolen eleni, fel y'i cyfrifwyd dan Safon Adrodd Ariannol (FRS) 17, yn dangos bod y diffyg ariannol wedi cynyddu o £23.139 miliwn i £30.786 miliwn. Er bod gwerth asedau'r Cynllun wedi cynyddu o £89.6 miliwn i £97.9 miliwn, mae rhwymedigaethau'r Cynllun hefyd wedi cynyddu. Ceir rhagor o fanylion am sut y cyfrifir costau pensiwn yn y nodyn ar bolisiau cyfrifyddu sydd yn y cyfrifon, ac mae'r gofynion datgelu sydd yn FRS 17 i'w gweld yn Nodyn 17 y datganiadau ariannol. Yn 2012/13, cytunodd Amgueddfa Cymru ac Ymddiriedolwyr y Cynllun ar brisiad actiwaraid tair blynedd diweddaraf y cynllun hyd at 31 Mawrth 2012, yn ogystal â'r cynllun adfer cysylltiedig i ddileu diffyg ariannol y Cynllun. Bydd y cynllun yn cael gwared ar y diffyg ariannol dros gyfnod sy'n adlewyrchu cynhaliaeth y Cynllun dan Warant y Goron a bod y Rheoleiddiwr Pensiwn yn derbyn y cynigion. Gydag Amgueddfa Cymru wedi cynyddu cyfraniadau'r cyflogwr i 21.3% ychydig flynyddoedd yn ôl, mae'r cynllun adfer yn adlewyrchu pecyn o fesurau y cytunwyd arnynt, ar ôl ymgynghori manwl gyda'r aelodau ac Ymddiriedolwyr y Cynllun. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys cynyddu cyfraniadau'r gweithwyr cyflogedig, addasu'r oedran ymddeol arferol i 65 a mwy o hyblygrwydd ynghylch troi hawliau pensiwn yn arian.

Cynhelir y prisiad actiwaraid tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2015 ac unwaith y bydd canlyniadau'r prisiad ar gael, caiff y cynllun adfer ei adolygu a'i gytuno.

Diolch i gamau gweithredu darbodus Amgueddfa Cymru i sicrhau cronfa wrth gefn cyn y toriadau a ragwelwyd mewn cymorth grant, bu modd i ni dalu blaensymiau ar gyfraniadau cyflogwr i'r Cynllun, gwerth £700,000 yn 2011/12, yn dilyn £1.382 miliwn a dalwyd yn 2010/11. Ni wnaed unrhyw daliadau ymlaen llaw pellach yn 2012/13 na 2013/14, a bydd y blaensymiau hyn yn gwrthdroi'n raddol dros y blynyddoedd nesaf gan ein helpu i reoli cyllidebau a pharhau i ddarparu gwasanaethau rheng-flaen.

Polisiau'n sy'n Ymwneud â Staff

Cyfle Cyfartal

Byddwn yn parhau i ymgynghori ar ein hamcanion cydraddoldeb a chynllun cydraddoldeb strategol yn 2014. Cynhaliwyd cyrsiau diweddarau yn ystod 2013/14 ar ein polisiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Urddas yn y Gwaith i staff Gwasanaethau Ymwelwyr Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Byddwn yn parhau i gynnal y gweithdai hyn â phob aelod o staff dros y flwyddyn nesaf.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru er mwyn cynnig profiad gwaith i fyfyrwyr ysgol sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Yn ystod 2013/14, cafodd pedwar myfyriwr profiad gwaith gyda ni.

Ymgynghori â Staff

Rydym yn parhau i gydymffurfio â rheoliadau Gwybodaeth ac Ymgynghori 2005, gan ymgynghori â staff, yn uniongyrchol a thrwy undebau cydnabyddedig, ar newidiadau mawr yn y sefydliad. Ategir y gofyniad cyfreithiol hwn i ymgynghori gan amrywiol dulliau gan gynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adran, gweithgorau, defnydd o e-bost a'r Fewnwyd a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel y bo'n briodol.

Rydym hefyd wedi parhau i gynnal ei Fforwm Staff yn rheolaidd bob deufis, lle mae'n trafod materion o bwys gyda chynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i Weithgor y Staff. Hefyd, mae cynrychiolwyr y tri undeb cydnabyddedig yn mynychu cyfarfodydd misol Gweithgor y Staff er mwyn sicrhau amgylchedd clir ac agored. Yn ystod 2013/14, ymgynghorwyd â'r undebau llafur a'r staff ynghylch y Rhaglen Newid, a oedd yn disgrifio strwythur newydd y sefydliad. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori i'r undebau a'r staff ym mis Ionawr 2013 a daeth yr ymgynghoriad 90 diwrnod i ben ar 20 Ebrill 2013. Anogwyd y staff a'r undebau llafur i gyflwyno'u hadborth a chynigion amgen mewn llawer o wahanol ffyrdd gan gynnwys trwy gyfrif e-bost arbennig, cyfarfodydd amlach Fforwm y Staff, y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn mynychu cyfarfodydd fesul adran a safle, cyfleoedd i'r staff gyfarfod a'u Cyfarwyddwyr yn unigol a thrafodaethau â chynrychiolwyr Adnoddau Dynol. Daeth cannoedd o gwestiynau a nifer fawr i gynigion amgen i law a lywiodd y trafodaethau a pheri newidiadau i'r cynigion gwreiddiol.

Ar 24 Mawrth 2014, dechreuwyd ar ymgynghoriad arall rhyngom â'r staff a'r undebau llafur ynghylch newidiadau arfaethedig i daliadau premiwm a'r cynllun diswyddo. Cynhaliwyd sesiynau briffio ym mhob un o'r saith amgueddfa, ac ailagorwyd cyfeiriad e-bost y Rhaglen Newid er mwyn i staff allu cyflwyno cwestiynau a chynigion amgen. Bu Cyfarwyddwyr a staff Adnoddau Dynol yn ymweld â'r gwahanol safleoedd i ateb cwestiynau'r staff. Daeth yr ymgynghoriad 45 diwrnod i ben ar 15 Mai 2014.

Hyfforddi Staff

Rydym yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddarparu cyfleoedd datblygu a hyfforddiant (ffurfiol ac anffurfiol) i'n gweithwyr cyflogedig. Rydym wedi clustnodi statws Buddsoddwyr mewn Pobl fel ffon fesur allanol hollbwysig o'r ymrwymiad hwn. Mae pob Amgueddfa ar wahân i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi cyflawni statws Buddsoddwr mewn Pobl. Yn 2013, llwyddodd Amgueddfa Lechi Cymri i gadw ei hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, ac enillodd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yr achrediad aur. Cynhelir yr adolygiad yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn ystod 2014/15.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynigiwyd hyfforddiant i staff i'w cefnogi drwy'r newidiadau sydd ar droed yn y sefydliad. Rydym wedi cynnig cyrsiau a gweithdai ar Newid Gyrfa, y Fframwaith Cymwyseddu, Ymwybyddiaeth o Straen ac Iechyd Meddwl a Rheoli Newid yn Llwyddiannus.

Data Absenoldeb Salwch

Mae gennym bolisiâu i gefnogi rheoli absenoldeb o'r gwaith. Rydym yn ystyried unrhyw absenoldeb dros 28 diwrnod yn olynol yn absenoldeb tymor hir. Mae pob absenoldeb yn cael ei gofnodi a'i fonitro gan reolwyr llinell a'r Adran Adnoddau Dynol. 4.9% (3.9% yn 2012/13) oedd lefel yr absenoldebau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014. Rydym yn parhau i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu cyflwyno, gyda'r Adran Adnoddau Dynol, y gweithiwr, swyddogion iechyd galwedigaethol a rheolwyr llinell yn cydweithio fel bo'r gweithiwr yn gallu dychwelyd i'r gwaith yn gynt neu er mwyn darparu cymorth penodol.

I gefnogi ein prosesau rheoli absenoldeb o'r gwaith ac i annog lles ein staff, rydym yn darparu Rhaglen Cymorth i Staff, sef gwasanaeth annibynnol a chyfrinachol sydd am ddim ac ar gael i bob aelod o staff. Darperir y Rhaglen gan ddarparwr allanol sy'n cynnig cyngor, gwybodaeth, cwnsela arbenigol a chefnogaeth. Ymhlith y gwasanaethau a gynigir, mae cwnsela dros y ffôn, adnoddau i reolwyr, gwybodaeth a chynngor am ystod eang o faterion, cwnsela wyneb yn wyneb a gwasanaeth gwybodaeth ar-lein.

Adroddiad ar Dâl

Mae gennym system gyflogau a graddau y cytunwyd arni ac a gyflwynwyd er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfiawn i bawb. Mae'n cwmpasu pob gweithiwr, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n cytuno ar delerau ac amodau ei benodiad ef.

Bob blwyddyn, rydym yn ystyried ein pecyn cyflogau ac yn datblygu cynnig cylch cyflog a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ac sy'n sail i drafodaethau gyda'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae pecyn cyflogau ac amodau newydd ar gyfer yr holl sefydliad yn deillio o hyn. Rhaid cydymffurfio â'r rhain tan y cylch trafod nesaf. Mae cynyddrannau blynyddol o dan y cylch cyflog yn dibynnu ar y system o adolygiadau datblygiad personol.

Mae cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol a bonws blynyddol posibl. Y Pwyllgor

Penodiadau a Chyflogau, sy'n cynnwys y Llywydd, yr Is-lywydd, y Trysorydd, a'r Ymddiriedolwyr Victoria Provis a Miriam Griffiths sy'n cytuno ar swm unrhyw fonws. Adolygir perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn erbyn amcanion a bennwyd ymlaen llaw. Yna bydd y Pwyllgor yn ystyried y gwerthusiad hwn, gan ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rhestrir cyfarwyddwyr Amgueddfa Cymru ar dudalen 19 ac mae rhagor o fanylion am daliadau a buddion pensiwn y cyfarwyddwyr yn Nodyn 7(c) i'r Cyfrifon, ac mae'r wybodaeth honno'n destun archwiliad. Nid oes unrhyw un o'r cyfarwyddwyr ar gytundeb tymor penodol, a chyflogir pob un, heblaw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, o dan delerau ac amodau safonol Amgueddfa Cymru. Mae unrhyw newidiadau i delerau ac amodau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a (lle'n briodol) Lywodraeth Cymru. Mae Nodyn 7(e) i'r Cyfrifon yn nodi'r berthynas rhwng taliad y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn y sefydliad a thaliad canolrifol gweithlu'r sefydliad hwnnw.

Deuddeg mis yw'r cyfnod rhybudd ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a chwe mis fel arfer ar gyfer y Cyfarwyddwyr eraill. Dyma ddyddiadau cychwyn cyflogaeth y Cyfarwyddwyr:

David Anderson (Cyfarwyddwr Cyffredinol)	11 Hydref 2010
Janice Lane	3 Medi 2012
Mark Richards	25 Ionawr 1999
Neil Wicks	27 Mehefin 2011
Peter Wakelin	

Mae cytundeb dileu swyddi safonol Amgueddfa Cymru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer iawndal am derfynu swydd yn gynnar.

Polisi Iaith Gymraeg

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod gennym Gynllun Iaith Gymraeg pedair blynedd a Chynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg cysylltiedig. Adolygwyd a chymeradwywyd ein Cynllun Iaith a'n Cynllun Gweithredu gan y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a grŵp sydd ag aelodau o bob rhan o'r sefydliad. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys ffyrdd i wella ein darpariaeth Gymraeg a chefnogi staff i wella eu sgiliau Gymraeg. Ar ddiwedd 2012/13, cynhyrchwyd Adroddiad Monitro Blynyddol gennym a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn unol ag Adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992. Mae manylion tâl yr archwilydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 yn Nodyn 6 y Cyfrifon Ariannol.

Pencadlys

Pencadlys Amgueddfa Cymru yw Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

Prif Ymgynghorwyr

Bancwyr:	Lloyds Bank PLC, Caerdydd
Cyfreithwyr:	Geldards LLP, Caerdydd
Archwilwyr Mewnol:	Baker Tilly, Caerdydd
Rheolwyr Buddsoddiadau:	Barclays, Caerdydd
Trethiant:	Deloitte & Touche LLP, Caerdydd
Rheolwyr y Gronfa Bensiynau:	BBS Consultants and Actuaries Ltd, Bryste

David Anderson

Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 15 Gorffennaf 2014

J. Peter W. Morgan

Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 15 Gorffennaf 2014

BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR

(O 1 Ebrill 2013 ymlaen)

Llywydd

Elisabeth Elias, MA, DL * #

Is-lywydd

Dr Haydn Ellis Edwards, B.Sc., MBA, Ph.D., FRSC, F.I.Mgt. * #

Trysorydd

J. Peter W. Morgan, M.Sc., FCA * #

Penodwyd gan Lywodraeth Cymru

Gareth Williams # (ymddiswyddodd 31 Mai 2014)

Carole-Anne Davies, BA (Anrh), P.G. Dip. LCW Open, FRSA #

Miriam Hazel Griffiths, MA #

Yr Athro R. Gareth Wyn Jones, D.Phil., D.Sc., FSB, FRSC, FLSW #

Christina Macaulay, MA (Anrh)

David Vokes LLB, MA #

Yr Athro Tony Atkins BSc, MA, Ph.D., Sc.D., FIMEchE, FIMMM, C.Eng, FR.Eng

Dr Carol Bell (penodwyd 1 Mehefin 2014)

Penodwyd gan Amgueddfa Cymru

Yr Athro Jonathan Osmond, MA, D.Phil (Oxon), F.R.Hist. S. * (bu farw 21 Mehefin 2014)

Keshav Singhal FRCS, M.Ch.

Victoria Provis MBA

Yr Athro Robert Pickard BSc, Ph.D, FSB *

Dr Glenda Jones BA (Anrh), Ph.D #

Laurie Pavelin, CBE, FCA (penodwyd 1 Mehefin 2014)

* Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio # Aelodau o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad

Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio

Laurie Pavelin (Cadeirydd) (ymddiswyddodd 31 Mai 2014)

Eurfyl ap Gwilym (Cadeirydd o 1 Mehefin 2014 ymlaen)

Huw Williams

Adrian Piper

BWRDD MENTRAU AOCC CYF

(O 1 Ebrill 2013 ymlaen)

Gareth Williams (Cadeirydd) (ymddiswyddodd 31 Mai 2014)

Christina Macaulay

Richard Gloster

Chris Jackson (Cadeirydd o 1 Mehefin 2014 ymlaen)

David Anderson

Mark Richards

Philip Smith (ymddiswyddodd 28 Mehefin 2013)

Karen James-Watkins (penodwyd 1 Gorffennaf 2013)

Neil Wicks (Ysgrifennydd y Cwmni)

Y GYFARWYDDIAETH

(O 1 Ebrill 2013 ymlaen)

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfyngau Digidol

Cyfarwyddwr Gweithredu a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol

Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol

Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

David Anderson

Janice Lane

Mark Richards

Peter Wakelin (o 1 Ionawr 2014 ymlaen)

Neil Wicks

John Williams-Davies (tan 31 Rhagfyr 2013)

Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992, mae'n rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Lywodraeth Cymru, gyda chydysniad y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i ddangos darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Amgueddfa Cymru a'i hadnoddau net, enillion a cholledion wedi a heb eu gwireddu, a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (2005): Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, yn benodol:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu priodol mewn ffordd gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn fel y nodwyd nhw yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wriad sylweddol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifyddu Amgueddfa Cymru. Mae Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys bod yn gyfrifol am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, a chadw cofnodion priodol a diogelu asedau Amgueddfa Cymru.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad sy'n anhysbys i archwilwyr Amgueddfa Cymru, ac maent wedi cymryd yr holl gamau disgwylidig er mwyn cael gwybod am unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad, ac er mwyn sicrhau bod archwilwyr Amgueddfa Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1. Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw fframwaith llywodraethu a system o reolaeth fewnol gadarn sy'n helpu i wireddu polisiau, amcanion a Gweledigaeth Amgueddfa Cymru fel y pennwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a hynny wrth amddiffyn y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

2. Diben y Fframwaith Llywodraethu

Diben y fframwaith llywodraethu, sy'n ymgorffori'r system rheolaeth fewnol, yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu unrhyw risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; nid yw felly'n rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond mae yn cynnig lefel resymol o sicrwydd. Mae'r fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar broses barhaus o nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion Amgueddfa Cymru, pwysu a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn o ddigwydd a'u heffaith petaent yn digwydd, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r fframwaith llywodraethu yn gweithredu gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. I gefnogi'r system rheolaeth fewnol, mae Amgueddfa Cymru'n gweithredu polisiau Twyll a Chwythu'r Chwiban sy'n destun adolygiad archwilio.

3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae trefniadau llywodraethu Amgueddfa Cymru yn cydymffurfio'n llwyr â'r Cod Llywodraethu ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol a gyhoeddwyd gan y National Governance Hub a'u cymeradwyo'n llawn gan y Comisiwn Elusennau. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi ystyriaeth briodol i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Mae'r Adroddiad Ariannol hwn yn rhoi adroddiad cynhwysfawr am y modd y mae Amgueddfa Cymru'n cyflawni hyn yn unol â'i nodau a'i hamcanion.

Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r fframwaith llywodraethu, gan gynnwys system rheolaeth fewnol, a roddwyd ar waith yn Amgueddfa Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Disgrifir y fframwaith hwn er mwyn adlewyrchu'r trefniadau sy'n bodoli er mwyn diwallu egwyddorion craidd llywodraethu effeithiol.

3.1 Canolbwyntio ar Ddiben a Chanlyniadau Amgueddfa Cymru (Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf; Sicrhau Gwerth am Arian)

Gweledigaeth ddeng mlynedd Amgueddfa Cymru yw 'creu amgueddfa ddysg o safon ryngwladol'. Paratowyd fersiwn ddrafft o ddogfen gynllunio tymor canolig Amgueddfa Cymru, y Map Gweledigaeth, ar ffurf Map Strategaeth, sef Cynllun Corfforaethol i bob pwrpas. Mae'n amlinellu'r deg amcan allweddol dros y tair blynedd nesaf, sydd â'r nod penodol o alluogi Amgueddfa Cymru i gyflawni'r Weledigaeth hon.

Mae'r amcanion allweddol, a restrir isod, hefyd yn cyd-fynd â strategaethau ac amcanion Llywodraethu Cymru ac yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer gweithgareddau Amgueddfa Cymru:

Pobl Cymru

- Byddwn ni'n datblygu ein hamgueddfeydd o safon ryngwladol er mwyn ysbrydoli dysgu a chysylltu pobl â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- Byddwn ni'n creu bri rhyngwladol.

Cynrychioli Cymru

- Byddwn ni'n denu cynulleidfaoedd penodedig â blaenoriaeth
- Byddwn ni'n cyflwyno casgliadau a gwaith ymchwil cyfoes a pherthnasol o safon ryngwladol
- Byddwn ni'n cyfleu ein casgliadau a'n hatgofion ni i gyd trwy adrodd straeon perthnasol, ystyrlon ac addysgiadol.

Gwella Perfformiad

- Byddwn ni'n ehangu ein partneriaethau cymunedol, strategol ac ariannol
- Byddwn ni'n cynnal ac yn ymestyn doniau, sgiliau proffesiynol a galluoedd craidd ein staff
- Byddwn ni'n defnyddio atebion rhithwir a'r cyfryngau newydd.

Llwyddiant Ariannol

- Byddwn ni'n hyrwyddo cynaliadwyedd cyhoeddus, gwleidyddol ac ariannol
- Byddwn ni'n defnyddio dull strategol a masnachol i ddatblygu a dyrannu adnoddau.

Caiff yr amcanion eu rhoi mewn cyd-destun blynyddol yn y Cynllun Gweithredol, gyda chyfres o gynlluniau amcanion adrannol yn sail iddo sydd hefyd wedi'u strwythuro o amgylch y Map Gweledigaeth.

Defnyddir cyfres o ddangosyddion ansoddol a meintiol a'r pecyn monitro ac adrodd *Gwerthuso* i fonitro perfformiad Amgueddfa Cymru yn erbyn yr amcanion.

Mae'r Cynllun Gweithredol yn cael ei fonitro gan y Cyfarwyddwyr, ac yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Monitro'r Cynllun Gweithredol bob chwarter a'i gyflwyno i gyfarfodydd chwarterol y Gweithgor Cyfunol, y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, mae'r pecyn *Gwerthuso* yn cael ei fonitro gan y Cyfarwyddwyr a'i ddiweddarau bob chwarter a chyflwynir adroddiad arno i'r Gweithgor Cyfunol, y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a Llywodraeth Cymru. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn derbyn yr wybodaeth gan y rhain bob chwarter yn Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sy'n crynhoi'r perfformiad am y chwarter.

3.2 Ymddiriedolwyr a Swyddogion yn Cydweithio i Sicrhau Diben Cyffredin gyda Rolau a Swyddogaethau Clir

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu, rheolaeth ariannol ac asedau'r sefydliad. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gyhoeddus i drafod ei fusnes.

Mae Aelodau o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Elusen yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru, yn unol â'r niferoedd a nodir yn y Siarter Frenhinol atodol ac yn unol ag egwyddorion dethol agored fel yr argymhellir gan Adolygiad Nolan. Sefydlwyd Is-bwyllgor Penodiadau er mwyn cynorthwyo a chynghori ar y broses. Mae pob aelod newydd a benodir yn dilyn rhaglen ymsefydlu, a ategir gan lawlyfr cynhwysfawr, yn fuan ar ôl cael ei benodi. Nid yw'r un aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael taliad gan Amgueddfa Cymru. Cedwir manylion eu swyddi cyfarwyddwyr cwmni ac unrhyw fuddiannau arwyddocaol eraill mewn Cofrestr Buddiannau, sy'n agored i'r cyhoedd ac a gedwir yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.


Mae atodlen o aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gydol y flwyddyn a hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys ymddeoliadau a phenodiadau newydd, yn rhan o'r Adroddiad Ariannol hwn. Mae'r atodlen hefyd yn nodi pa Ymddiriedolwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio. Dangosir cofnod o bresenoldeb yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr isod. Cafwyd esboniadau boddhaol am bob absenoldeb.

Gyda thristwch mawr, rydym yn cofnodi marwolaeth ddiweddar yr Athro Jonathan Osmond ym mis Mehefin 2014. Roedd wedi bod yn Ymddiriedolwr yma ers 2007 a bu'n cadeirio Grŵp Comisiynu Project Ailddatblygu Sain Ffagan, yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio ac yn Aelod o'r Grŵp Cynghori Celf. Byddwn yn gweld eisiau ei gyfraniad at Amgueddfa Cymru yn fawr.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rhywfaint o awdurdod i is-bwyllgorau amrywiol, yn bennaf y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, sydd â chylch gwaith eang o fonitro materion gweithredol, a'r Pwyllgor Archwilio, sydd â chadeirydd annibynnol a thri aelod annibynnol arall. Mae'r pwyllgorau hyn yn cyfarfod bob chwarter ac yn adrodd yn rheolaidd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi'n glir beth yw cylch gwaith a chyfrifoldebau pob pwyllgor.

Ymddiriedolwr	Dyddiad cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr					Nifer y cyfarfodydd	Presenoldeb %
	23/5/13	18/7/13	18/10/13	28/11/13	13/3/14		
Elisabeth Elias	✓	✓	✓	✓	✓	5	100%
J. Peter W Morgan	✓	✓	✓	✓	✓	5	100%
Dr Haydn Edwards	✓	✓	✓	✓	✓	5	100%
Gareth Williams	x	✓	✓	✓	✓	4	80%
Carole-Anne Davies	✓	✓	✓	x	✓	4	80%
Christina Macaulay	x	✓	✓	✓	✓	4	80%
Yr Athro Emeritws Richard Gareth Wyn Jones	x	✓	✓	✓	✓	4	80%
Miriam Hazel Griffiths	✓	✓	✓	✓	✓	5	100%
Yr Athro Jonathan Osmond	x	✓	✓	✓	x	3	60%
David Beresford Vokes	x	✓	✓	x	✓	3	60%
Yr Athro Tony Atkins	x	✓	✓	✓	✓	4	80%
Victoria Mary Provis	✓	x	✓	✓	✓	4	80%
Keshav Singhal	✓	✓	✓	x	x	3	60%
Robert Pickard	✓	✓	✓	✓	✓	5	100%
Glenda Jones	½	✓	✓	✓	x	3.5	70%

Dangosir y berthynas rhwng y Bwrdd a'i bwyllgorau isod:



Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn penodi Bwrdd Mentrau AOCC Cyf, yr is-gwmni sy'n llywio gweithgareddau masnachu Amgueddfa Cymru ac, yn ogystal â Chyfarwyddwyr sy'n Ymddiriedolwyr, mae Cyfarwyddwyr anweithredol eraill sydd â phrofiad masnachol perthnasol yn cael eu penodi. Mae'r Adroddiad Ariannol yn cynnwys rhestr o Aelodau'r Bwrdd.

Y Gyfarwyddiaeth sy'n arwain a rheoli materion gweithredol o ddydd i ddydd, ac mae'r manylion i'w gweld yn yr adroddiad hwn. Penodir holl aelodau'r Gyfarwyddiaeth trwy gystadleuaeth agored ac maent yn cael eu cyflogi dan y Telerau ac Amodau Cyflogaeth safonol, sy'n berthnasol i'r holl staff ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Caiff ei delerau penodi ef eu cytuno â Llywodraeth Cymru.

3.3 Hyrwyddo Gwerthoedd Amgueddfa Cymru ac Arddangos Gwerthoedd Llywodraethu Da trwy Gynnal Safonau Ymddygiad ac Ymddwyn o Safon Uchel

Mae Amgueddfa Cymru yn cefnogi saith egwyddor bywyd cyhoeddus yr Arglwydd Nolan. Mae'n cefnogi Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd ac yn ymroi i sicrhau bod ei holl weithwyr ac Ymddiriedolwyr yn dilyn yr egwyddorion hyn. Disgwylir i'r holl Ymddiriedolwyr gydymffurfio'n llawn â Chod Ymddygiad Amgueddfa Cymru, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant sefydlu corfforaethol, sy'n darparu gwybodaeth am bob math o bolisiau, gweithdrefnau a rheoliadau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb a rheoli gwybodaeth. Mae'r Rheoliadau Ariannol, polisiau a gweithdrefnau ar gael ar y Fewnrwyd i bob aelod o staff. Mae Amgueddfa Cymru yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i gynnig cyfleoedd datblygu a hyfforddi (ffurfiol ac anffurfiol) i'w holl weithwyr. Mae gennym broses Adolygu Datblygu Perfformiad hefyd, sy'n darparu adolygiad strwythuredig i staff o'u hamcanion personol, eu perfformiad yn erbyn yr amcanion hynny a'r cyfle i nodi anghenion a dyheadau datblygu.

Rydym ni'n annog gwirfoddolwyr, profiad gwaith, lleoliadau a phrentisiaethau. Mae'r holl wirfoddolwyr yn dilyn rhaglen sefydlu gorfforaethol sy'n fersiwn lai yw hon o'r rhaglen sefydlu y mae'r holl staff yn ei derbyn. Yn ogystal â hyn, mae adrannau'n darparu hyfforddiant penodol i rôl sy'n cynnwys iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â'r rôl a'r adran y maent yn gwirfoddoli ynddi.

Rydym ni'n disgwyl i bob aelod o staff ymddwyn yn onest a chywir bob amser, a diogelu'r adnoddau cyhoeddus sydd yn ei ofal. Mae Amgueddfa Cymru'n ystyried twyll neu ladrad o unrhyw fath – beth bynnag fo'r gwerth – yn gwbl annerbyniol, ac mae'r polisiau canlynol ar waith i atal ac ymdrin ag achosion o'r fath:

- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Twyll a Llygredd
- Polisiau Adnoddau Dynol ar ddisgyblu staff sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath.

O dan y Polisi Twyll a Llygredd, cyfrifoldeb rheolwyr llinell a chyfarwyddwyr yw sicrhau bod ganddynt system reolaeth fewnol ddigonol yn eu meysydd cyfrifoldeb a bod dulliau rheoli'n gweithredu'n effeithiol.

Mae gennym God Ymarfer ar gyfer Cwynion, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae pob agwedd ar gwynion yn cael eu hymchwilio'n llawn, a chaiff camau unioni addas eu nodi a'u gweithredu, gan gynnwys newidiadau i weithdrefnau lle bo'n briodol.

Yn 2013/14, ymwelodd dros 1.6 miliwn o bobl â'r amgueddfeydd. Mae Amgueddfa Cymru yn ystyried diogelwch staff ac ymwelwyr o ddifrif, ac mae gennym gyfres o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi hyn, gan gynnwys polisi Amddiffyn Plant.

3.4 Gwneud Penderfyniadau Clir a Gwybodys sy'n Destun Craffu a Rheoli Risg Effeithiol

Mae'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'n swyddogaethau wedi'i nodi'n glir yn y Siarter Brenhinol. Mae'n disgrifio swyddogaethau a'r berthynas rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Phwyllgor yr Ymddiriedolwyr a dirprwyo swyddogaethau i swyddogion gweithredol eraill.

Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau ar sail adroddiadau ac ystyriaeth o'r goblygiadau cyfreithiol ac ariannol a'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw. Cyhoeddir cofnodion ar ein gwefan i sicrhau tryloywder.

3.4.1 Rheoli Risg

Cyfrifoldeb y cyfarwyddwyr a'r penaethiaid adran yw rheoli risg o ddydd i ddydd, a chaiff adolygiadau ac asesiadau ffurfiol eu cynnal yn rheolaidd gan Grŵp Rheoli Risg. Caiff yr adolygiadau hyn eu harchwilio gan y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio. Trwy fanteisio ar brofiad yr archwilwyr mewnol, sy'n mynychu cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg, a thrwy brofiad aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio, caiff y broses ei diwygio'n barhaus.

Mae'r Polisi Rheoli Risg yn egluro'r fframwaith a swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg, ynghyd â chanllawiau ar nodi, asesu, monitro a rheoli risg. Sefydlwyd y Polisi, gan gyfeirio'n benodol at Lyfr Oren Trysorlys Ei Mawrhydi ar reoli risg a llawlyfr Llywodraeth Cymru ar reoli risg – *Hanfodion Risg*. Diweddarwyd ac ail-lansiwyd y Polisi yn 2012/13 gyda chymorth yr archwilwyr mewnol.

Mae Grŵp Rheoli Risg trawsadrannol arbennig yn cynnal adolygiad Rheoli Risg trylwyr, gan edrych ar y cynnydd ac effeithiolrwydd rheoli risgiau mawr. Mae'r grŵp yn cadw Cofrestr Risgiau Strategol, gan flaenoriaethu'r holl risgiau yn ôl y tebygolrwydd y gallai'r risg ddigwydd a'i heffeithiau posibl. Mae'r grŵp yn adolygu Cofrestr Risg Cyfadrannol yn rheolaidd ac yn ymgysylltu â phob cyfarwyddwr a phennaeth adran ynghylch newidiadau i fygythiadau posibl, a sicrhau bod rheoli risg wedi ymwreiddio ledled y sefydliad. Mae nodi a rheoli risgiau hefyd yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd cyfadrannol a chyfarfodydd yr Uwch Dîm Reoli. Cedwir Cofrestr Risg ar wahân ar gyfer yr is-gwmni masnachu, y cwmni menter ar y cyd, y Cynllun Pensiwn a gydol oes pob project mawr a gyflawnir. Ar ddiwedd project, caiff y Gofrestr Risg ei hasesu a chaiff pob risg sy'n parhau ei throsglwyddo i'n prif gofrestri.

Mae gofyn i'r grŵp hefyd ystyried risgiau posibl penodol a nodir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio. Hefyd, mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio'n adolygu'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Strategol a materion a drafodir yng nghyfarfodydd chwarterol y grŵp, yn ogystal â chymau lliniaru a gymerir yn erbyn y risgiau mwyaf.

Mae aelodau'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnwys yr archwilydd mewnol sy'n gymorth i allu ystyried materion sy'n peri pryder mewn cyrff eraill. Mae rhaglen waith yr archwilydd mewnol yn croesgyfeirio'n benodol at y risgiau a nodwyd, a hefyd yn cael ei llywio gan y Gyfarwyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae bygythiadau i ddiogelwch ein holl asedau yn risg sylfaenol, sy'n gofyn am gamau lliniarol. Y risg sylweddol arall yw gostyngiad mewn incwm oherwydd gostyngiadau mewn cymorth grant yn y dyfodol ac erydiad y cyllid sydd ar gael mewn termau real, sy'n cael ei liniaru gan y Rhaglen Newid. Mae'r risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, y Grŵp Rheoli Risg a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae archwiliadau o gynllun a gweithrediad y broses Rheoli Risg wedi'u cynnwys yn rhaglen waith dreigl yr archwilwyr mewnol. Roedd archwiliad 2013/14 yn canolbwyntio ar ddatblygu ac ymwreiddio cofrestr risg cyfadrannol ar draws y sefydliad, ac adroddwyd y bu 'cynnydd da wrth ddatblygu a gweithredu'r cofrestr risg cyfadrannol sy'n cyfrannu at y Gofrestr Risg Strategol'.

3.4.2 Diogelwch Gwybodaeth

Mae gennym weithdrefnau diogelwch gwybodaeth i sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb a hygyrchedd gwybodaeth sy'n cael ei chadw a'i phrosesu, a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Dara a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn eu plith, mae'r canlynol:

- y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am awdurdodi a rheoli'r holl gyfryngau symudol
- polisi Diogelwch Gwybodaeth
- polisi Diogelu Data
- canllawiau a pholisi trin gwybodaeth a roddir i bob aelod o staff
- parhau i gydymffurfio'n statudol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, ac adrodd am hynny
- y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau ac yn adolygu'r trefniadau trin data.

Fel y nodwyd yn Natganiad Llywodraethu llynedd, ym mis Ebrill 2013 bu methiant o ran diogelwch gwybodaeth yn ymwneud â data pensiwnwyr. Ymchwiliodd Swyddog Diogelu Data Amgueddfa Cymru i'r methiant, ac adroddodd i'r Bwrdd, Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn a Llywodraeth Cymru ac anfonwyd adroddiad at y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae camau adfer a chywiro wedi'u cymryd, ac mae gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddarau i sicrhau nad yw'r methiant yn digwydd eto. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cadarnhau fod y camau a gymerwyd yn ddigonol ac nad oes angen ymateb pellach. Ni chafwyd unrhyw achosion eraill o dorri diogelwch gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod 2012/13, mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu a chymeradwyo Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Strategaeth TGCh, ac maent yn cael eu rhoi ar waith.

Fel rhan o'r cylch archwilio tair blynedd, yn ystod 2012/13 derbyniodd ac adolygodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad mewnol ar Lywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu. Ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Hefyd, cafodd y prosesau'n ymwneud ag ansawdd y data a gyflwynwyd i randdeiliaid mewnol ac allanol eu hystyried yn y tair blynedd diwethaf gan yr Archwilwyr Mewnol. Barnwyd eu bod yn brosesau digonol.

3.5 Datblygu Gallu Ymddiriedolwyr a Swyddogion i fod yn Effeithiol

Llywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru sy'n penodi'r Ymddiriedolwyr. Darperir cynllun ymsefydlu ffurfiol i'r Ymddiriedolwyr ar ôl eu penodi. Rhoddir hyfforddiant pellach fel bo'r angen yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, roedd digwyddiad hyfforddi'r Ymddiriedolwyr eleni yn canolbwyntio ar ddulliau cyfranogol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gan dynnu sylw at y rhaglen *Our Museum* yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi cyflwyno adolygiad o Effeithlonrwydd y Bwrdd yn ystod 2013/14, yn unol ag arferion gorau ac argymhellion Rheoli Arian Cyhoeddus a *Dear Accounting Officer* (DAO) *Gen 02/12* (gweler adran 4 isod).

Mae'r system rheoli ariannol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, Rheoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Caiff hyn ei lywio gan ein Dogfen Fframwaith, arferion gorau a Rheoli Arian Cyhoeddus. Mae'n cynnwys:

- rhagfynegi a monitro cyllidebau, gydag adroddiadau ariannol rheolaidd sy'n nodi'r gwariant gwirioneddol a'r rhagolygon gwariant yn erbyn cyllidebau
- cynlluniau gwariant cyfalaf a chanllawiau clir
- disgyblaethau rheoli projectau ffurfiol
- ymgynghoriadau rheolaidd a chynnwys archwilio mewnol gydol y broses o ddatblygu neu gyflwyno newidiadau i systemau
- cysylltiad agos â'r Archwilydd Allanol
- gofyn am gyngor arbenigol lle bo'n briodol
- adroddiadau rheolaidd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, Is-bwyllgorau a Llywodraeth Cymru
- adolygiadau rheoli cyson.

3.6 Ymgysylltu â Phobl Leol a Rhanddeiliaid Eraill i Sicrhau Atebolrwydd Cyhoeddus Cadarn

Rydym ni'n gweithredu rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn unol â'i Siarter Frenhinol. Rydym hefyd wedi cymeradwyo'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac yn aelod o'r Grŵp Llywio sy'n datblygu Strategaeth Amgueddfeydd Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n nodi tair egwyddor allweddol:

- Amgueddfeydd i bawb
- Casgliad i'r genedl
- Gweithio'n effeithiol.

Mae ein Gweledigaeth, Map Gweledigaeth a Chynllun Gweithredol yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn ac mae ein cyfraniad i Strategaeth Amgueddfeydd Cymru Llywodraeth Cymru'n cael ei fonitro drwy gynllun gweithredu sy'n cael ei ddiweddarau a'i gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr bob blwyddyn.

Mae gennym Strategaeth Gyfathrebu sydd â'r nod o hyrwyddo Amgueddfa Cymru, ein Gweledigaeth, ein hamcanion a'n blaenoriaethau. Rydym yn defnyddio mwy a mwy ar rwydweithiau cymdeithasol, gan gynnwys Twitter a Facebook, i gyfathrebu â chynulleidfa darged ddewisol. Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo gweithgareddau ac mae tanysgrifwyr yn derbyn e-gylchlythyr misol. Cyhoeddir cylchlythyr corfforaethol bob chwarter i hysbysu rhanddeiliaid allweddol am newyddion a datblygiadau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu mewnol ac yn parhau i roi'r Cynllun Cyfathrebu Mewnol ar waith. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth i staff yn electronig ac wyneb yn wyneb er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at benderfyniadau ac yn ymwybodol ohonynt.

Rydym yn cydnabod undebau llafur, ac mae'r rheolwyr wedi cyfarfod â nhw ac ymgynghori â nhw yn ystod y flwyddyn. Gwahoddwyd cynrychiolwyr yr undebau i Bwyllgor Gweithgor y Staff ar Adnoddau Dynol ac Ariannol.

Mae gan Amgueddfa Cymru gynllun cyhoeddiadau a gall rhanddeiliaid weld amrywiaeth eang o gyhoeddiadau, polisiau a gweithdrefnau yn ogystal â chofnodion y Bwrdd a datganiadau ariannol ar ein gwefan.

4. Adolygu Effeithiolrwydd

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol, cynghorwyr proffesiynol eraill a'r Gyfarwyddiaeth, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, yn llywio'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu. Hysbyswyd y Swyddog Cyfrifyddu am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun i fynd i'r afael â materion a sicrhau gwelliannau parhaus i'r system ar waith. Darperir rhagor o wybodaeth yn adran 5 – 'Materion Llywodraethu a Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol' isod.

Yn 2012/13, cyflwynodd Amgueddfa Cymru raglen o holiaduron gwerthuso i'w llenwi gan y Bwrdd, y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio. Mae arfarniadau Ymddiriedolwyr unigol, a gynhaliwyd gan y Llywydd, hefyd wedi'u cyflwyno.

Roedd canfyddiadau'r broses werthuso yn 2012/13 yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Ymhlith y materion a godwyd oedd cyfleoedd i'r Ymddiriedolwyr brofi ystod ehangach o waith pwyllgor, gwella eu hymwybyddiaeth o lywodraethu dirprwyedig a rhagor o fanylion am anghenion a sialensiau rheoli gwybodaeth. Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod 2013/14.

Roedd canfyddiadau'r broses werthuso a gynhaliwyd ar ddiwedd 2013/14 hefyd yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd holl ymatebwyr holiadur y Bwrdd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno'n rhannol â 79% o'r datganiadau. Roedd meysydd a oedd yn peri pryder yn cynnwys adnoddau digonol i roi strategaethau ac amcanion yr Amgueddfa ar waith yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, a sicrhau fod rhaglenni a phrojectau sylweddol wedi'u halinio'n glir â'r strategaeth ac o fewn cylch gwaith y corff. Fel llynedd, cafodd dros 90% o'r cwestiynau ar holiadur y Pwyllgor Archwilio ymateb cadarnhaol, a phennwyd ymsefydlu a hyfforddi aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio yn faes i'w wella. Cafwyd ymateb cadarnhaol i dros 90% o gwestiynau datganiadau ar holiadur y Pwyllgor Adolygu Perfformiad hefyd.

Rydym wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal fframwaith llywodraethu effeithiol a system effeithiol o reolaeth fewnol:

- Rheoliadau ariannol, polisiau a threfniadau gweinyddol manwl gan gynnwys didoli dyletswyddau a gwahanol lefelau o awdurdod a ddirprwyir; systemau cyllido cynhwysfawr; a chanllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir a'u monitro
- Prosesau rheoli mewnol megis monitro ac adrodd am berfformiad, cyfarfodydd adrannol a briffiau cyfarwyddwyr
- Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried cwmipas y rhaglen archwilio fewnol ac yn derbyn adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter, ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried cofnodion y cyfarfod a hefyd adroddiad gan y Cadeirydd
- Adroddiadau rheolaidd gan yr Archwilwyr Mewnol gan gynnwys eu barn annibynnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system rheolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella
- Adroddiad blynyddol gan yr Archwilwyr Mewnol. Ar sail gwaith archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, daeth yr Archwilydd Mewnol i'r casgliad bod gennym brosesau rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth ddigonol ac effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.
- Mae'r Archwilydd Mewnol yn cynnal adolygiad o gydymffurfiaeth o egwyddorion y Cod Llywodraethu Da ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru bob tair blynedd; cadarnhaodd adolygiad 2012/13 bod gennym, yn gyffredinol, reolaethau priodol ar waith ar gyfer pob un o'r egwyddorion.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru, ein harchwilwyr allanol, yn darparu Llythyr Rheoli sy'n crynhoi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r datganiadau ariannol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu hyn ac yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Mae'r ffynonellau sicrwydd eraill yn cael eu hystyried gan gynnwys adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau, Arolygwyr Treth Tirlenwi, Arolygiaeth Diogelwch Pyllau Glo a Buddsoddwyr mewn Pobl.

5. Materion Llywodraethu a Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol

Ni chododd unrhyw faterion llywodraethu neu reolaeth fewnol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn. Cefnogir hyn gan Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol a Llythyr Rheoli'r Archwiliad Allanol.

Yn ystod 2014/15, bydd y broses o adolygu ac adnewyddu ein gweledigaeth, a gychwynnwyd gan y Cyfarwyddwyr tua diwedd 2013/14, yn parhau. Bydd staff yn ymgysylltu â'r broses hon. Cyhoeddir y Weledigaeth ar ei newydd wedd yn 2015/16.

Yr her i ni yw gwireddu'r Weledigaeth yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac, yn benodol, y gostyngiadau yn y Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru. Wrth symud ymlaen, byddwn yn:

- herio arferion gwaith cyfredol a'u newid
- pennu a gweithredu ffyrdd mwy effeithiol ac arloesol o weithio
- gorffen y gwaith a gychwynnodd yn 2013/14 o roi strwythur newydd y sefydliad ar waith
- cwblhau gwaith o weithredu system Adnoddau Dynol newydd a system dreuliau awtomatig, a chwblhau cam peilot y System Rheoli Dogfennau Electronig
- adolygu trefniadau'r Cynllun Pensiwn
- adolygu'r gweithrediadau Blaen Tŷ.

Bydd proses fonitro a chraffu gadarn yn allweddol i lwyddiant hyn, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud newidiadau ac arbedion gan amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar y gwasanaethau a ddarperir.

6. Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y flwyddyn i ddod, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen i gyflwyno gwelliannau a byddwn yn monitro'r dulliau o'u cyflwyno a'u gweithredu fel rhan o'n hadolygiad nesaf.

David Anderson

Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 15 Gorffennaf 2014

J. Peter W. Morgan

Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 15 Gorffennaf 2014

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Amgueddfa Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 o dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys adroddiad ar daliadau. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y polisiau cyfrifyddu a ddisgrifir ynddynt.

Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Ariannol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Dâl a'r datganiadau ariannol, yn unol ag Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed oddi tani, ac am sicrhau cywirdeb y trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar dâl sydd i'w archwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'n ofynnol yn ôl y safonau hyn i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Ymarfer Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth am symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol, i weld a oes sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad o bwys, boed trwy dwyll neu wall. Mae'n cynnwys asesu: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Amgueddfa Cymru a'u bod wedi'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol Amgueddfa Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ychwanegol at hynny, mae'n ofynnol i mi gasglu digon o dystiolaeth er mwyn cael sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu rheoli.

Rwyf hefyd yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad Ariannol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr er mwyn nodi unrhyw anghysondebau o bwys gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Barn ar Ddatganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr Amgueddfa Cymru ar 31 Mawrth 2014, yr adnoddau a ddaeth i mewn a'r defnydd a wnaed ohonynt, ac enillion a cholledion a llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben
- wedi'u paratoi yn gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru yn unol â Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar Faterion Eraill

Yn fy marn i:

- mae'r darn o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w archwilio wedi'i baratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru
- mae'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt gydag eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd wrthy ch amdanynt os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi;
- nad yw'r cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw'n gywir;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys Ei Mawrhydi ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nad wyf wedi derbyn pob gwybodaeth ac esboniad sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

24 Gorffennaf 2014

DATGANIAD CYFUNOL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2014

	Cronfeydd Cyhoeddus		Cronfeydd Preifat		2013/14	2012/13	
	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000	
Nodiadau							
ADNODDAU I MEWN							
Adnoddau Incwm o Gynhyrchu Cronfeydd:							
Incwm Gwirfoddol							
Grantiau	2	3,973	24,138	0	0	28,111	24,437
Rhoddion a Chymynroddion	3	501	0	2,295	89	2,885	1,159
		4,474	24,138	2,295	89	30,996	25,596
Gweithgareddau ar gyfer Cynhyrchu Cronfeydd							
Incwm o'r Is-gwmni Masnachu	4	0	2,857	0	0	2,857	2,602
Incwm Buddsoddi		0	0	41	14	55	46
Cyfanswm yr Adnoddau Incwm o Gynhyrchu Cronfeydd		4,474	26,995	2,336	103	33,908	28,244
Incwm arall	5	83	1,361	3	1	1,448	1,197
CYFANSWM ADNODDAU I MEWN		4,557	28,356	2,339	104	35,356	29,441
ADNODDAU A WARIWYD	6&7						
Costau Cynhyrchu Cronfeydd:							
Costau Cynhyrchu Incwm Gwirfoddol		0	483	12	56	551	483
Costau'r Is-gwmni Masnachu	4	0	2,312	0	0	2,312	2,187
		0	2,795	12	56	2,863	2,670
Costau Gweithgareddau Elusenol:							
Addysg, Arddangosfeydd a Chyfringau Digidol		168	3,051	10	1	3,230	3,445
Casgliadau ac Ymchwil		1,142	7,938	150	2	9,232	8,106
Gweithrediadau'r Amgueddfa		835	13,102	7	2	13,946	14,324
		2,145	24,091	167	5	26,408	25,875
Costau Llywodraethu		0	475	0	0	475	523
Costau Cyllid Pensiwn	17e	0	500	0	0	500	589
CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD		2,145	27,861	179	61	30,246	29,657
CYFRAN O'R FENTER AR Y CYD	8	(79)	0	0	0	(79)	(79)
ADNODDAU I MEWN/(ALLAN) NET AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL		2,333	495	2,160	43	5,031	(295)
Elw/(Colled) heb ei gyflawni ar ailbriso'r asedau sefydlog a fwriedir at Ddefnydd Elusenol	9	6,568	16	86	25	6,695	(2,006)
Elw/(Colled) wedi'i gyflawni/heb ei gyflawni ar werth buddsoddiadau ar y farchnad	11	0	0	214	(86)	128	220
(Colled) activaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	17d	0	(8,163)	0	0	(8,163)	(8,033)
		8,901	(7,652)	2,460	(18)	3,691	(10,114)
SYMUDIADAU NET MEWN CRONFEYDD YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL							
BALANSAU CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN AR 1 EBRILL 2013	18	99,309	(18,509)	5,222	1,252	87,274	97,388
BALANSAU CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN AR 31 MAWRTH 2014	18	108,210	(26,161)	7,682	1,234	90,965	87,274

Mae'r SOFA uchod yn cynnwys pob elw a cholled a gydnabyddir.

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Y gostyngiad net anghyfunol mewn cronfeydd a gofnodwyd yn Natganiad o Weithgareddau Ariannol Amgueddfa Cymru yn ystod 2013/14 oedd £3,685,000 (£10,117,000 yn llai yn 2012/13).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 54 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2014

	Nodiadau	Amgueddfa Cymru		Cyfunol	
		2014 £'000	2013 £'000	2014 £'000	2013 £'000
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Diriaethol	9	81,591	75,140	81,600	75,146
Asedau Treftadaeth	10	20,145	17,681	20,145	17,681
Cyfran o Fenter ar y Cyd:	8				
Cyfran o asedau gros		9,599	9,677	9,599	9,677
Cyfran o rwymedigaethau gros		(2)	(1)	(2)	(1)
		<u>9,597</u>	<u>9,676</u>	<u>9,597</u>	<u>9,676</u>
Buddsoddiadau	11	2,533	2,388	2,533	2,388
		<u>113,866</u>	<u>104,885</u>	<u>113,875</u>	<u>104,891</u>
ASEDAU CYFREDOL					
Stoc	12	37	59	416	422
Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	13	4,939	4,049	4,151	3,056
Buddsoddiadau		506	503	506	503
Arian parod yn y banc ac mewn llaw		4,136	3,179	4,793	4,003
		<u>9,618</u>	<u>7,790</u>	<u>9,866</u>	<u>7,984</u>
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL					
Credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	14	(1,688)	(2,167)	(1,882)	(2,310)
ASEDAU CYFREDOL NET		<u>7,930</u>	<u>5,623</u>	<u>7,984</u>	<u>5,674</u>
CYFANSWM ASEDAU NAMYN RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		<u>121,796</u>	<u>110,508</u>	<u>121,859</u>	<u>110,565</u>
CREDYDWYR					
Symiau sy'n dod sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	15	(108)	(152)	(108)	(152)
ASEDAU NET AC EITHRIO RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN		<u>121,688</u>	<u>110,356</u>	<u>121,751</u>	<u>110,413</u>
Diffyg cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	17a	(30,786)	(23,139)	(30,786)	(23,139)
ASEDAU NET YN CYNNWYS RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN		<u>90,902</u>	<u>87,217</u>	<u>90,965</u>	<u>87,274</u>
CRONFEYDD	18	108,210	99,309	108,210	99,309
Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig					
Cronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad		4,562	4,573	4,625	4,630
Cronfeydd Pensiwn Wrth Gefn		(30,786)	(23,139)	(30,786)	(23,139)
Cyfanswm Cronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad		<u>(26,224)</u>	<u>(18,566)</u>	<u>(26,161)</u>	<u>(18,509)</u>
Cronfeydd Preifat Cyfyngedig		7,682	5,222	7,682	5,222
Cronfeydd Preifat Digyfyngiad		1,234	1,252	1,234	1,252
		<u>90,902</u>	<u>87,217</u>	<u>90,965</u>	<u>87,274</u>

Llofnodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan

David Anderson
Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi ar 15 Gorffennaf 2014

J. Peter W. Morgan
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi ar 15 Gorffennaf 2014

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 54 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2014

	Nodiadau	Amgueddfa Cymru		Cyfunol	
		2013/14 £'000	2012/13 £'000	2013/14 £'000	2012/13 £'000
Llif arian parod net o Weithgareddau Gweithredu	19	3,182	1,764	3,021	2,004
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol	20	(2,178)	(1,000)	(2,184)	(1,004)
Rheoli Adnoddau Hylif	21	(3)	(503)	(3)	(503)
Cyllid	22	(44)	(43)	(44)	(43)
Cynnydd mewn Arian Parod	23	<u>957</u>	<u>218</u>	<u>790</u>	<u>454</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 54 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

1. Polisiau Cyfrifyddu

1.1 Y Sail Cyfrifyddu

Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys ailbrisiad o rai asedau sefydlog diriaethol ar sail eu gwerth i Amgueddfa Cymru. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r Cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP 2005), Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a'r datganiadau cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu, i'r graddau y bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau y gallai'r eithriadau yn y SORP Elusennau fod yn berthnasol o ran yr angen i ddatgelu cost hanesyddol asedau sefydlog diriaethol.

1.2 Ymgymeriadau'r Fenter ar y Cyd

Mae Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe yn ddau aelod cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA Cyf), cwmni cyfyngedig dan warant heb gyfalaf cyfranddaliadau. Mae canlyniadau'r fenter ar y cyd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti gros. Llofnodwyd cyfrifon AGGA Cyf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 ar 18 Mehefin 2014 a derbyniwyd barn archwiliad ddiamod. Gellir cael copi o'r cyfrifon o bencadlys Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

1.3 Ymgymeriadau'r Is-gwmni

Mae Amgueddfa Cymru'n gweithredu is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi o'r enw Mentrau Amgueddfeydd ac Orielaau Cenedlaethol Cymru (Mentrau AOCC) Cyf. Mae canlyniadau masnachu'r cwmni wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol gan ddefnyddio'r dull 'fesul llinell'. Cafodd cyfrifon Mentrau AOCC Cyf ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2014 eu cymeradwyo ar 24 Mehefin 2014 a derbyniwyd barn archwiliad ddiamod. Gellir cael copi o'r cyfrifon o bencadlys Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

1.4 Adnoddau i Mewn

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol os bodlonwyd yr amodau ar gyfer ei dderbyn. Caiff unrhyw grantiau eu credu i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail eu derbyn. Caiff incwm ar gyfer gwasanaethau ei gredu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion os bodlonwyd yr amodau ar gyfer eu derbyn.

1.5 Adnoddau a Wariwyd

Caiff gwariant ei ddyrannu ar draws y penawdau gwariant ar sail dyraniad uniongyrchol a dosraniad anuniongyrchol ar gyfer costau cynnal fel y bo'n briodol. Mae cost cynhyrchu cronfeydd yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig â'r is-gwmni masnachu a chodi arian. Mae cost gweithgareddau elusennol yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig ag Addysg, Arddangosfeydd a Chyfyngau Digidol, Casgliadau ac Ymchwil a Gweithrediadau'r Amgueddfa. Mae'r costau llywodraethu yn cynnwys yr holl wariant sy'n gysylltiedig â chynllunio corfforaethol a strategol, gwaith Bwrdd a Phwyllgor, cyswllt â Llywodraeth Cymru, archwiliad mewnlol ac allanol, rheoli risg ac adroddiadau statudol, a gwaith cyfrifon.

Mae'r sail ar gyfer dyrannu costau cymorth fel a ganlyn: dyrennir costau Marchnata, Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg yn ôl amser canrannol, dyrennir Cyllid fesul cyfanswm incwm a'r cyfanswm gwariant, dyrennir TGCh yn ôl nifer y defnyddwyr cyfrifiaduron a dyrennir Adnoddau Dynol yn ôl nifer y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn.

1.6 Asedau Sefydlog Diriaethol

Mae'r holl eitemau sydd o natur cyfalaf ac yn costio mwy na £5,000 yn cael eu cyfalafu. Nid yw eitemau o natur cyfalaf sy'n costio llai na £5,000 yn cael eu cyfalafu, a chânt eu diddymu yn y flwyddyn.

Mae asedau tir ac adeiladau yn cael eu priso'n broffesiynol bob pum mlynedd ar sail gwerth defnydd cyfredol neu gost adnewyddu ar ôl dibrisiant fel y bo'n briodol, a chânt eu hailbriso trwy ddefnyddio mynegai yn y cyfnod cyfamserol. Caiff unrhyw waith cynnal a chadw bob dydd mewn perthynas â'r eiddo hwn ei ddiddymu yn ystod blwyddyn cyflawni'r gwaith.

Mae asedau nad ydynt yn ymwneud ag eiddo (h.y. offer a cherbydau a gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar) yn cael eu cadw ar sail cost hanesyddol (neu'r gost ailbriso cyn 1 Ebrill 2010), ac nid ydynt yn cael eu mynegeoio gan mai bywydau economaidd defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau) sydd gan yr asedau hyn.

Mae'r rheolwyr yn cynnal adolygiad blynyddol o namau.

1.7 Asedau Treftadaeth

Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwys hanesyddol, celfyddydol neu wyddonol sy'n cael eu cadw at ddibenion datblygu amcanion cadwedigaeth, cadwraeth ac addysgiadol elusennau, ac sy'n cyfrannu trwy fynediad cyhoeddus at ddiwylliant ac addysg y genedl ar raddfa genedlaethol neu leol. Mae'r asedau hyn yn ganolog i'r gwaith o gyflawni amcanion Amgueddfa Cymru ac yn cynnwys tir, adeiladau, arddangosion a chreiriau. Ers 1 Ebrill 2001, mae asedau treftadaeth a brynwyd neu a gyflwynwyd i'r Amgueddfa sydd â gwerth unigol o £5,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu ar sail cost/prisiad hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw'r asedau a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu ac ym marn yr Ymddiriedolwyr ni ellir cyfiawnhau cost sylweddol prisio'r casgliad anferth hwn o asedau treftadaeth (tua 5.1 miliwn o eitemau) ar sail cost/budd. Mae asedau a gyfrannwyd neu a ran-gyfrannwyd yn cael eu prisio gan gyfeirio at anfonebau neu ddogfennau eraill os ydynt ar gael, ac fel arall gan staff curadurol.

1.8 Dibrisiant

Caiff dibrisiant ei godi ar asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio asedau tir a threftadaeth). Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

- Caiff adeiladau rhydd-ddaliad ac eiddo ar brydlesi hir eu dibrisio yn ystod eu hoes ddefnyddiol sef rhwng 50 a 125 mlynedd.
- Fel y caniateir gan SORP Elusennau 2005, nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio. Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddilliol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mae oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau treftadaeth eraill mor hir nad yw dibrisiant o bwys.
- Bydd peiriannau, cyfarpar, ffitiadau a gosodiadau'n dibrisio dros 5-10 mlynedd. Yn achos eitemau penodol sy'n destun newidiadau technegol neu lle bo ffactor darfodol uchel, caiff cyfnod o 3 blynedd ei ddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd gan rai eitemau penodol eraill gyfnod dibrisio hirach.
- Codir am asedau ar brydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

1.9 Cronfeydd

Mae Cronfeydd Cyhoeddus a Phreifat Difyfyngiad ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr, i hyrwyddo amcanion cyffredinol Amgueddfa Cymru.

Y Cronfeydd Cyfyngedig Cyhoeddus yw'r Grantiau Cyfalaf a'r Grantiau Prynu Sbesimenau a geir gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill y llywodraeth.

Cronfeydd Preifat Cyfyngedig yw cronfeydd sy'n dibynnu ar gyfyngiadau penodol a osodir gan gyfranwyr a rhaid eu defnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau a gafwyd wrth eu sefydlu.

Gellir trosglwyddo arian rhwng cronfeydd cyn belled mai at ddibenion a bennwyd gan y rhoddwr neu'r corff dyrannu grant yn unig y defnyddir cronfeydd cyfyngedig.

1.10 Stoc

Mae Amgueddfa Cymru'n cadw stoc o gyhoeddiadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ei siopau. Mae'r rhain yn cael eu prisio ar isafswm y gost a'r gwerth gwiredadwy net.

1.11 Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Polisi Amgueddfa Cymru yw cadw cofnodion prisio yn gyfredol, felly pan fo buddsoddiadau'n cael eu gwerthu, nid oes enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gwahaniaethu rhwng addasiadau prisio yn ymwneud â gwerthiant a'r rhai yn ymwneud â daliannau sy'n parhau am eu bod yn cael eu trin fel newidiadau yng ngwerth y portffolio buddsoddiad drwy gydol y flwyddyn.

1.12 Croniadau Gwyliau Staff

Mae Amgueddfa Cymru wedi mabwysiadu polisi cyfrifyddu yn wirfoddol sy'n cydnabod cronladau o hawliau gwyliau staff nas cymerwyd erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n cael eu cario ymlaen i'r flwyddyn ganlynol.

1.13 Ymchwil a Datblygu

Caiff gwariant ar ymchwil a datblygu ei osod yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

1.14 Trethiant

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi rhoi statws elusen i Amgueddfa Cymru, ond codir Treth Gorfforaeth ar Fentrau AOCC Cyf.

1.15 Pensiynau

Caiiff cyfraniadau at Gynllun Pensiwn Amgueddfa Genedlaethol Cymru eu codi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr. Cyfrifir y gost i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail y costau gwasanaeth cyfredol fel y'u cyfrifir gan actiwari'r cynllun.

1.16 Deilliannau

Nid oes unrhyw fenthyciadau gan Amgueddfa Cymru ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau'r Llywodraeth ar gyfer ei gofynion arian parod ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau materol wedi eu nodi mewn sterling, ac nid ydynt yn agored i risgiau o ran cyfraddau llog neu arian cyfred.

1.17 Arian Tramor

Mae asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor yn cael eu trosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Mae trafodion mewn arian tramor yn cael eu trosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Mae gwahaniaethau cyfnewid yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar adnoddau net i mewn.

1.18 Asedau a Rhwymedigaethau Amodol

Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol wedi'u cronni yn y datganiadau cyfrifyddu. Cyfeirir at rhwymedigaethau amodol yn achos unrhyw hawliau cyfreithiol lle nad oes yswiriant, mewn nodyn i'r cyfrifon, yn yr un modd ag unrhyw asedau a rhwymedigaethau amodol eraill.

1.19 Ymrwymadau Prydlesu

Caiiff rhent a delir yn unol â phrydlesau gweithredu ei osod yn erbyn y cyfrif elw a cholled ar sail llinell syth dros dymor y byrdles.

2. Grantiau Derbyniadwy

	Cyhoeddus Cyfyngedig £'000	Cyhoeddus Digyfyngiad £'000	2013/14 £'000	2012/13 £'000
Cymorth Grant Refeniw	0	22,436	22,436	22,447
Cymorth Grant Prynu Sbesimenau	538	0	538	538
Cymorth Grant Cyfalaf	3,005	0	3,005	600
Grant arall y llywodraeth	430	1,702	2,132	852
	3,973	24,138	28,111	24,437

Cafodd Amgueddfa Cymru gyfanswm o £25,979,000 o Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru (£23,585,000 yn 2012/13) sy'n cynnwys y Grantiau Refeniw, Prynu Sbesimenau a Chymorth Grant Cyfalaf.

Roedd grantiau eraill y llywodraeth yn cynnwys: £1,350,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£248,000 yn 2012/13), £8,000 gan yr Undeb Ewropeaidd (£10,000 yn 2012/13), a £774,000 gan Lywodraeth Cymru (£594,000 yn 2012/13).

3. Rhoddion a Chymynroddion

	Cronfeydd cyhoeddus		Cronfeydd preifat		2013/14 £'000	2012/13 £'000
	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000		
Aседau a gyfrannwyd	0	0	1,264	0	1,264	310
Rhoddion eraill	501	0	1,031	89	1,621	849
	501	0	2,295	89	2,885	1,159

Cafodd holl brisiadau asedau a gyfrannwyd (neu a ran-gyfrannwyd) eu gwneud gan staff curadurol neu trwy gyfeirio at anfonebau/gohebiaeth derbyn 'in lieu'.

4. Is-gwmni Masnachu

Mae gan Amgueddfa Cymru un is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi, ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU. Prif weithgareddau Mentrau AOCC Cyf yw gwerthu nwyddau yn holl siopau Amgueddfa Cymru, arlwygo, parcio, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, gosod eiddo, archebion drwy'r post, ymdrin â'r derbyniadau o werthu arddangosfeydd neu eu rhoi ar fenthyg, a hawliau ffilmio. Mae Mentrau AOCC Cyf yn dychwelyd ei elw i Amgueddfa Cymru ar ffurf cymorth rhodd. Ceir crynodeb o'u canlyniadau masnachu isod.

	2013/14 £'000	2012/13 £'000
Trosiant	2,647	2,438
Cost gwerthiant	(2,013)	(1,867)
Elw gros	634	571
Costau gweinyddol	(291)	(312)
Incwm gweithredu arall	210	164
Elw ar weithgareddau arferol cyn llog	553	423
Llog sy'n daladwy	(8)	(8)
Elw ar weithgareddau arferol cyn treth	545	415
Treth ar elw gweithgareddau arferol	0	0
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	545	415
Cymorth rhodd sy'n daladwy i'r Amgueddfa	(540)	(412)
Elw a gedwir ar gyfer y flwyddyn ariannol	5	3

